# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.30 y.h., DYDD LLUN, 28AIN MEHEFIN, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Teams**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**EirianRoberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 22/6/21)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Addysg)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid)

## PRIF WEITHREDWR

Dafydd Gibbard

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Arwyn Williams – Ysgol Tryfan

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Richard Derwyn Jones – Ysgol Garndolbenmaen
Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan

## UNDEBAU ATHRAWON

Disgwyl Enwebiad

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth

Meirionnydd
Gwilym Eifion Roberts, Ysgol Godre'r Berwyn
Disgwyl enwebiad – Llywodraethwr Cynradd

Dwyfor
Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Tracy Richardson Jones

## YSGOLION EGLWYS

Elfed Morgan Morris – Ysgol Llandygai

## YSGOLION ARBENNIG

Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion
Gwenan Davies Jones - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Dewi Bowen - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN


**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 5 - 8

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Ebrill, 2021.

**7. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Trafod unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**8. BALANSAU YSGOLION BLWYDDYN GYLLIDOL 2020/21** 9 - 16

Adroddiad gan Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion).

**9. GRANTIAU YSGOLION 2021/22** 17 - 21

Adroddiad gan Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion).

**10. DYRANIAD CYNNAL TIROEDD YSGOLION** 22 - 25

Adroddiad gan Owen Owens (Uwch Reolwr - Ysgolion)

**11. STRATEGAETH DDIGIDOL YSGOLION**

Adroddiad llafar gan Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion)

**12. DIWEDDARIAD GWEITHGOR CYLLID ADY** 26 - 31

Adroddiad gan Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad).

**13. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI TUAG AT 2032 A THU HWNT** 32 - 51

Adroddiad gan Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

**14. RHAGLEN WAITH A DYDDIADAU CYFARFODYDD BLWYDDYN ACADEMAIDD 2021/22**

Ystyried rhaglen waith a dyddiadau cyfarfodydd y fforwm (i ddilyn).

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION DYDD LLUN, 26 EBRILL 2021

**Yn bresennol:** Godfrey Northam (Llywodraethwr Ysgol Dyffryn Ogwen) (Cadeirydd).

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Addysg)

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd L.Edwards

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Dylan Davies (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog) ac Arwyn Williams (Ysgol Tryfan).

Cynradd: Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys / Bro Cynfal), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Richard Derwyn Jones (Ysgol Garndolbenmaen) ac Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan).

**Llywodraethwyr:** Edward Bleddyn Jones (Ysgol Tregarth), Gwilym Eifion Roberts (Ysgol Godre'r Berwyn) a Gwilym Jones (Ysgol Borthygest).

**Ysgolion Eglwys:** Elfed Morgan Morris (Ysgol Llandygai)

**Sylwedydd:** Gwenan Davies Jones (Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd).

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg), Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dewi Lake (Pennaeth Ysgol y Moelwyn), Alan Wynn Jones (Pennaeth Ysgol Cymerau) a Donna Roberts (Ysgolion Arbennig).

Nododd y Cadeirydd fod 2 sedd wag ar y Fforwm o hyd – y naill ar gyfer llywodraethwr cynradd o Feirionnydd, a'r llall ar gyfer llywodraethwr uwchradd o Ddwyfor. Nododd hefyd nad oedd cynrychiolydd yr Esgobaeth yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm. Nododd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n mynd ar ôl y materion hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg fod Neil Foden wedi rhoi'r gorau i'w rôl fel cynrychiolydd NEU ar y Fforwm Undebau Athrawon, ac y gobeithid penodi olynydd iddo erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd i anfon nodyn at Neil Foden i ddiolch iddo am ei wasanaeth a'i gyfraniad i waith y Fforwm hwn.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2021 fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Eitem 5 – Materion yn codi o Gofnodion Cyfarfod 28 Medi, 2020

- Materion Ariannol COFID-19
  Cadarnhawyd y derbyniwyd ad-daliad o'r golled incwm prydau ysgol. Nodwyd y caewyd cyfrifon 2021/22 heddiw, a bod tua £700,000 o gronfa Cofid yn dod i'r ysgolion, gyda £400,000 yn digolledu'r sector uwchradd am golled incwm arlwyaeth i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
  Yn dilyn trafodaethau yn y Grŵp Strategol, y penderfynwyd adrodd yn ôl erbyn Mawrth 2022, yn hytrach na 2021, ar ganlyniadau'r trafodaethau ynglŷn â sail dyrannu dyraniad strategaeth cynhwysiad yn y fformiwla, gan fod y penaethiaid yn awyddus i gael mwy o amser i ystyried y gwahanol opsiynau.

- Nodwyd bod cyfran helaeth o'r grantiau dderbyniwyd angen eu gwario erbyn 31 Mawrth eleni, ond bod Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i'r cynghorau lithro'r rhan o'r grant Cyflymu Dysgu a dderbyniwyd i'r haf.

Eitem 6 – Rhagolygon Ysgolion
Nodwyd y derbyniwyd arian effaith demograffi a chwyddiant, fel sy'n arferol. Nid oedd yn glir ar y pryd a fyddai rhai bidiau'n llwyddiannus, ac roedd yr ysgolion wedi darganfod £160,000 o arbedion yn 2021/22 i gyfrannu tuag at fidiau addysg aflwyddiannus. Codwyd lefel y Dreth Gyngor i ariannu'r bid o tua £225,000 i gryfhau darpariaeth ADY blynyddoedd cynnar, ac ni fu'n rhaid torri ar y gyllideb ysgolion i gyllido hyn.

Nodwyd y parheid i ddisgwyl cadarnhad gan Lywodraeth Cymru am grantiau 2021/22. Derbyniwyd neges heddiw ynglŷn â'r grant datblygu disgyblion sy'n cael ei ddyrannu ar sail nifer y disgyblion ysgol sy'n cael cinio ysgol am ddim, ond ni fyddai Gwynedd yn derbyn y grant tan ar ôl yr Etholiad ar y 6ed o Fai. Yn y cyfamser, byddai'n amcangyfrif gwerth y grant fel y gellid symud ymlaen.

Eitem 8 – Strategaeth Ddigidol Ysgolion
Nodwyd bod y trafodaethau'n parhau ar lefel Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd ar y cyd â Chyngor Ynys Môn a Cynnal.

Eitem 9 – Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2021-24
Nodwyd, wrth egluro'r cytundebau lefel gwasanaeth, y byddai'n rhaid edrych ar ail-ddyrannu'r arian sy'n mynd i ysgolion ar sail wahanol. Roedd hyn wedi'i gytuno mewn egwyddor eisoes, ond nid oedd yn glir eto beth fyddai'r effaith ar yr ysgolion unigol, a byddai'n rhaid dod â hyn i'r Fforwm er mwyn gweithredu erbyn y flwyddyn nesaf.

Eitem 10 – Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
Nododd y Cadeirydd y canslwyd cyfarfod 1 Mawrth o'r Fforwm gan nad oedd yna unrhyw faterion i'w trafod, ond gan iddo dderbyn cwyn ynglŷn â hynny gan ddau aelod, trefnwyd cyfarfod heddiw fel cyfarfod ychwanegol o'r Fforwm. Ychwanegodd na fu'n bosib' cael dyddiad cynharach na hyn.

## 6. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH – 2021-24

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg yn nodi bod y cytundebau canlynol wedi dod i ben ar 31/3/21:-

- Arlwyo, Glanhau a Gofalu a Chynnal Tiroedd (cynradd / uwchradd / arbennig a dilynol)
- Canolfan Fusnes Addysg (cynradd)

Eglurwyd -

- Y cynigiwyd y cytundebau Arlwyo, Glanhau a Gofalu a Chanolfan Fusnes Addysg am y cyfnod 1/4/21 i 31/3/24.
- Y cynigiwyd y cytundeb Cynnal Tiroedd am flwyddyn (1/4/21 i 31/3/22) gan fod y gwaith yn parhau o fodelu dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion, fel eu bod yn adlewyrchu gofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn well.
- Y cynhaliwyd proses ymgynghori gydag ysgolion parthed y Cytundebau Lefel Gwasanaeth oedd yn cael eu cynnig iddynt yn Ebrill, 2021.
- Y derbyniodd yr ysgolion gopïau o'r CLGau drafft a gyflwynwyd gan y gwasanaethau, gan amlygu'r newidiadau ynddynt o'u cymharu â'r CLGau blaenorol.

Cyflwynwyd – crynodeb o ymatebion yr ysgolion, a sylwadau'r ysgolion ar y gwahanol gytundebau.

Gan gyfeirio at sylwadau'r ysgolion ar y cytundeb cynnal tiroedd, holwyd pam bod cynifer ohonynt naill ai'n defnyddio, neu'n chwilio am gontractwr eu hunain. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn arferol i allu rhoi barn ar y gwasanaeth, gan fod y gwaith torri gwair wedi'i atal am gyfnod oherwydd y cyfnod clo. Nodwyd ymhellach bod y gwasanaeth canolog yn cynnig gwarant o ran materion megis iechyd a diogelwch, ac yswiriant, ac ati, yn wahanol i gontractau allanol, ond cydnabyddid bod angen i'r gwasanaeth werthu ei hun yn well i'r ysgolion.

Mynegodd y Cadeirydd ei bryder fod Ysgol Dyffryn Ogwen yn gwario mwy ar gynnal y gwasanaeth arlwyo nag ysgolion eraill. Mewn ymateb, nodwyd bod yna amrywiaeth yn y fwydlen ar draws y sir, a bod modd i ysgolion wneud mwy o elw drwy werthu prydau llawn, na byrbrydau. Rhwng Cofid, ac amgylchiadau eraill, ni fu'n hawdd cael cyfnod arferol i allu gweld beth yn union oedd y tu cefn i hyn, ond bwriedid edrych ar y sefyllfa dros yr wythnosau nesaf.

Mynegodd Pennaeth Ysgol Tryfan ei werthfawrogiad o'r capasiti glanhau ychwanegol oedd wedi bod ar gael i'r ysgolion yn ystod y cyfnod Cofid, gan nodi bod hyn wedi hwyluso pethau'n fawr, ac wedi codi cynyddu hyder y staff a'r disgyblion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth.**

## 7. EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Gofynnwyd i'r Fforwm ystyried eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Mynegwyd dymuniad i roi'r cais am eitemau gerbron y cyfarfod penaethiaid.

Mynegwyd pryder bod cynifer o grantiau wedi cyrraedd ar y funud ddiwethaf, fel y bu'n amhosib' gwario'r arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfleu'r neges honno, rhag i bobl gamddehongli sefyllfa ariannol yr ysgolion, a meddwl bod ganddynt falansau uwch nag sydd ganddynt mewn gwirionedd.

Ategodd y Pennaeth Cyllid y sylw drwy nodi fod y Cyngor hefyd mewn sefyllfa debyg o ran y grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, ac er y croesawid y grantiau hynny'n fawr, eu bod yn datgan sefyllfa ychydig yn ffals ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Nododd ymhellach ei fod ef, ynghyd â'r Aelod Cabinet, yn sicrhau bod y rheswm am hynny yn cael ei roi drosodd yn glir ganddynt ym mhob cyfarfod roeddent yn ei fynychu.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg ei bod yn bwysig i ysgolion adnabod yr adnoddau sydd wedi'u clymu yn yr holiadur wrth dderbyn y balansau diwedd blwyddyn.

Rhoddodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion fraslun o'r sefyllfa o ran balansau ysgolion, gan nodi y byddai'n adrodd yn llawn ar hyn i gyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Mehefin. Nododd fod y balansau wedi cynyddu o £4.3m i £10.7m hyd at 31 Mawrth, 2021. Derbyniwyd £3m o grantiau, ynghyd â £1m o GwE at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn y sector cynradd, gan fod yr ysgolion wedi cau am bron i 6 mis o'r flwyddyn, gwelwyd tanwariant o £400,000 yn y Cynllun Absenoldebau.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd na fu trafodaeth am y trothwyon gwahanol, gan mai Llywodraeth Cymru oedd wedi sefydlu'r trothwyon o £50,000 yn y cynradd, a £100,000 yn yr uwchradd, ac mai sut rydym yn dehongli uwchben y trothwyon hynny sy'n bwysig.

Nododd y Pennaeth Cyllid fod angen ystyried sut rydym wedi cyrraedd y sefyllfa sydd ohoni. Fel corff ariannu, os nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwario'r arian yn y flwyddyn, roedd yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth y DU, ac roedd yn well gweld yr arian yn cael ei gelcio gan y Cyngor am flwyddyn, na'i fod yn cael ei golli.

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm am 3.30yp, ar ddydd Llun, 28 Mehefin, 2021.

Eglurodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion fod y Fforwm wedi bod yn cyfarfod unwaith y tymor yn hanesyddol, yn ddibynnol ar amserlen setliad Llywodraeth Cymru, gydag ail gyfarfod yn ystod Tymor y Gwanwyn petai angen.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried rhwng hyn a'r cyfarfod nesaf beth sydd angen i'r Fforwm ei drafod, a phryd, fel y gellir sefydlu rhaglen waith am y flwyddyn yng nghyfarfod Mehefin.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.30 y.h. a daeth i ben am 4.10 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **28 Mehefin 2021** |
| **TEITL** | **Balansau Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2020/21** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

**1 Cyfrifon Terfynol 2020/21**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2021 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2021 -

| | canran | 31/03/2020 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2021 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.09% | £2,469,193 | +£3,377,997 | £5,847,190 | 15.91% |
| Dilynol | 9.20% | £398,894 | +£257,234 | £656,128 | 11.54% |
| Uwchradd | 4.39% | £1,428,561 | +£2,420,162 | £3,848,723 | 11.09% |
| Arbennig | 0.91% | £36,343 | +£364,879 | £401,222 | 9.52% |
| **Cyfanswm** | **5.72%** | **£4,332,991** | **+£6,420,272** | **£10,753,263** | **13.22%** |

1.3 Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn eithriadol yn sgil COVID-19. Yn ystod tymor Haf 2020 ac eto wedyn ym mis Ionawr/Chwefror roedd yr ysgolion ar agor i ddisgyblion bregus a phlant gweithwyr allweddol yn unig.

1.4 Derbyniwyd grantiau gan Llywodraeth Cymru yn 2020/21 er mwyn rhyddhau adnoddau i ysgolion yn 2021/22, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd. Tydi sefyllfa balansau ysgolion Gwynedd ddim yn unigryw.

1.5 Nid oedd yr un ysgol mewn diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol o gymharu gyda 5 ysgol ar ddiwedd 2019/20 gwerth -£136,608.

1.6 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi cynyddu o £2,048,358 (60 ysgol) ar 31/03/2020 i £6,738,553 (94 allan o 96 ysgol) ar 31/03/2021. Dwy ysgol sydd ddim gyda balansau dros 5%.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –

- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir erbyn 25 Mehefin 2021
- yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda'r ysgol bydd yr Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio'r balansau a hynny erbyn 30 Medi 2021
- adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu'r arian yn ôl erbyn 31 Rhagfyr 2021
- mae cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella'r ysgol

2.3 Mae atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 47 ysgol gynradd (amrywio rhwng £241-£176,957 uwchben trothwy £50mil)
- 2 ysgol ddilynol (amrywio rhwng £98,978-£357,150 uwchben trothwy £100mil)
- 12 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £63,055-£548,636 uwchben y trothwy £100mil)
- 2 ysgol arbennig (amrywio rhwng £91,726-£109,496 uwchben y trothwy £100mil)

## 3. Casgliad

3.1 Nid yw datganiad ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2021 wedi'i gyhoeddi eto, ond mae awdurdodau eraill yn adrodd ar gynnydd ym malansau ysgolion eleni.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gydag ysgolion i wneud defnydd doeth o'r balansau sylweddol sydd ar gael yn 2021/22.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

**Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2021** atodiad / appendix 1

**Schools' Balances 31 March 2021**

| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol School No** | **Enw Ysgol School Name** | **Balansau 31/03/2020 Balances** | **Dyraniad Terfynol 2020/21 Final Allocation** | **Balansau fel % o'r Dyraniad Balances as a % of Allocation** | **Balansau 31/03/2021 Balances** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over 5% 31/03/2021** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over £50k or £100k 31/03/2021** |
| 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £60,328 | £596,355 | 24.42% | **£145,620** | £115,803 | £95,620 |
| 2 | 2004 | Nefyn | £20,620 | £553,816 | 15.64% | **£86,623** | £58,932 | £36,623 |
| 3 | 2006 | Llanrug | £30,327 | £895,983 | 12.42% | **£111,279** | £66,480 | £61,279 |
| 4 | 2008 | Abererch | £56,176 | £344,230 | 31.48% | **£108,353** | £91,141 | £58,353 |
| 5 | 2009 | Abersoch | £2,371 | £137,379 | 1.29% | **£1,772** | £0 | £0 |
| 6 | 2010 | Beddgelert | £12,273 | £201,919 | 21.46% | **£43,340** | £33,244 | £0 |
| 7 | 2011 | Bethel | £10,804 | £524,158 | 10.78% | **£56,485** | £30,277 | £6,485 |
| 8 | 2013 | Bodfeurig | £21,838 | £265,301 | 14.79% | **£39,229** | £25,964 | £0 |
| 9 | 2015 | Borthygest | £21,517 | £199,741 | 21.66% | **£43,268** | £33,281 | £0 |
| 10 | 2017 | Brynaerau | £33,654 | £266,103 | 24.17% | **£64,307** | £51,002 | £14,307 |
| 11 | 2026 | Y Gelli | £30,648 | £757,101 | 13.18% | **£99,765** | £61,910 | £49,765 |
| 12 | 2028 | Penybryn | £8,359 | £599,182 | 10.44% | **£62,561** | £32,602 | £12,561 |
| 13 | 2033 | Treferthyr | £32,557 | £433,327 | 14.79% | **£64,093** | £42,427 | £14,093 |
| 14 | 2036 | Chwilog | £210 | £248,741 | 13.79% | **£34,307** | £21,870 | £0 |
| 15 | 2039 | Crud Y Werin | £18,396 | £272,446 | 18.44% | **£50,241** | £36,619 | £241 |
| 16 | 2042 | Dolbadarn | £53,036 | £649,806 | 19.22% | **£124,916** | £92,425 | £74,916 |
| 17 | 2046 | Edern | £31,020 | £351,658 | 23.05% | **£81,059** | £63,476 | £31,059 |
| 18 | 2047 | Felinwnda | £10,288 | £192,369 | 13.94% | **£26,809** | £17,191 | £0 |
| 19 | 2048 | Bro Plennydd | £16,564 | £318,526 | 14.84% | **£47,265** | £31,338 | £0 |
| 20 | 2049 | Garndolbenmaen | £88 | £206,531 | 12.63% | **£26,080** | £15,754 | £0 |

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2021

atodiad / appendix 1

## Schools' Balances 31 March 2021

| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol School No** | **Enw Ysgol School Name** | **Balansau 31/03/2020 Balances** | **Dyraniad Terfynol 2020/21 Final Allocation** | **Balansau fel % o'r Dyraniad Balances as a % of Allocation** | **Balansau 31/03/2021 Balances** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over 5% 31/03/2021** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over £50k or £100k 31/03/2021** |
| 21 | 2051 | Glanadda | £63,022 | £94,131 | 0.00% | **£0** | £0 | £0 |
| 22 | 2059 | Llanaelhaearn | £6,522 | £56,701 | 0.00% | **£0** | £0 | £0 |
| 23 | 2060 | Llanbedrog | £10,411 | £369,861 | 14.33% | **£53,014** | £34,521 | £3,014 |
| 24 | 2066 | Llangybi | £131 | £212,012 | 12.44% | **£26,370** | £15,769 | £0 |
| 25 | 2069 | Llanllechid | £74,445 | £921,956 | 16.11% | **£148,515** | £102,418 | £98,515 |
| 26 | 2070 | Llanllyfni | £80,760 | £336,934 | 35.45% | **£119,451** | £102,605 | £69,451 |
| 27 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | £31,175 | £200,995 | 27.03% | **£54,339** | £44,289 | £4,339 |
| 28 | 2078 | Baladeulyn | £11,377 | £194,223 | 14.41% | **£27,995** | £18,284 | £0 |
| 29 | 2081 | Nebo | £18,307 | £178,962 | 16.27% | **£29,125** | £20,176 | £0 |
| 30 | 2085 | Penisarwaen | £5,765 | £266,534 | 22.16% | **£59,054** | £45,727 | £9,054 |
| 31 | 2089 | Bro Lleu | £4,426 | £764,151 | 9.10% | **£69,574** | £31,367 | £19,574 |
| 32 | 2093 | Pentreuchaf | £15,465 | £397,693 | 20.64% | **£82,104** | £62,219 | £32,104 |
| 33 | 2097 | Rhiwlas | £15,309 | £203,292 | 11.55% | **£23,470** | £13,306 | £0 |
| 34 | 2098 | Rhosgadfan | £3,412 | £220,510 | 13.03% | **£28,729** | £17,704 | £0 |
| 35 | 2099 | Rhostryfan | £15,174 | £296,248 | 16.99% | **£50,339** | £35,526 | £339 |
| 36 | 2103 | Sarn Bach | £21,776 | £238,505 | 28.50% | **£67,967** | £56,042 | £17,967 |
| 37 | 2104 | Eifion Wyn | £773 | £764,061 | 13.83% | **£105,660** | £67,457 | £55,660 |
| 38 | 2108 | Talysarn | £48,679 | £439,211 | 13.51% | **£59,345** | £37,384 | £9,345 |
| 39 | 2110 | Y Gorlan | £67,078 | £474,258 | 24.57% | **£116,517** | £92,804 | £66,517 |
| 40 | 2111 | Yr Eifl | £9,979 | £239,311 | 11.94% | **£28,571** | £16,606 | £0 |

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2021
## Schools' Balances 31 March 2021

atodiad / appendix 1

| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol School No** | **Enw Ysgol School Name** | **Balansau 31/03/2020 Balances** | **Dyraniad Terfynol 2020/21 Final Allocation** | **Balansau fel % o'r Dyraniad Balances as a % of Allocation** | **Balansau 31/03/2021 Balances** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over 5% 31/03/2021** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over £50k or £100k 31/03/2021** |
| 41 | 2112 | Tudweiliog | £8,200 | £236,488 | 16.82% | **£39,768** | £27,943 | £0 |
| 42 | 2113 | Waunfawr | -£5,120 | £476,415 | 8.55% | **£40,730** | £16,909 | £0 |
| 43 | 2116 | Glancegin | £49,140 | £910,682 | 14.79% | **£134,653** | £89,119 | £84,653 |
| 44 | 2118 | Babanod Coed Mawr | £49,129 | £57,054 | 0.00% | **£0** | £0 | £0 |
| 45 | 2119 | Yr Hendre | -£47,169 | £1,471,847 | 2.41% | **£35,429** | £0 | £0 |
| 46 | 2122 | Bontnewydd | £61,196 | £709,149 | 13.58% | **£96,334** | £60,877 | £46,334 |
| 47 | 2123 | Y Garnedd | £24,292 | £1,171,205 | 13.60% | **£159,287** | £100,727 | £109,287 |
| 48 | 2125 | Cymerau | £84,423 | £1,166,780 | 19.45% | **£226,957** | £168,618 | £176,957 |
| 49 | 2126 | Abercaseg | £102,127 | £430,160 | 30.62% | **£131,708** | £110,200 | £81,708 |
| 50 | 2127 | Y Felinheli | £20,691 | £627,721 | 10.55% | **£66,216** | £34,830 | £16,216 |
| 51 | 2181 | Traeth | £64,964 | £771,405 | 16.96% | **£130,868** | £92,298 | £80,868 |
| 52 | 2185 | Corris | £17,987 | £257,516 | 17.75% | **£45,699** | £32,823 | £0 |
| 53 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | £41,428 | £396,401 | 27.59% | **£109,383** | £89,563 | £59,383 |
| 54 | 2190 | Bro Cynfal | £27,330 | £273,775 | 13.50% | **£36,948** | £23,260 | £0 |
| 55 | 2192 | Edmwnd Prys | £11,206 | £225,751 | 13.20% | **£29,789** | £18,501 | £0 |
| 56 | 2194 | Llanbedr | £9,054 | £230,524 | 15.75% | **£36,300** | £24,774 | £0 |
| 57 | 2198 | Y Garreg | £9,939 | £189,562 | 15.06% | **£28,544** | £19,066 | £0 |
| 58 | 2199 | O.M.Edwards | £5,780 | £385,850 | 11.80% | **£45,513** | £26,221 | £0 |
| 59 | 2205 | Manod | £50,314 | £422,298 | 18.93% | **£79,929** | £58,814 | £29,929 |
| 60 | 2207 | Pennal | £2,201 | £197,529 | 13.33% | **£26,322** | £16,446 | £0 |

**Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2021** atodiad / appendix 1

**Schools' Balances 31 March 2021**

| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol School No** | **Enw Ysgol School Name** | **Balansau 31/03/2020 Balances** | **Dyraniad Terfynol 2020/21 Final Allocation** | **Balansau fel % o'r Dyraniad Balances as a % of Allocation** | **Balansau 31/03/2021 Balances** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over 5% 31/03/2021** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over £50k or £100k 31/03/2021** |
| 61 | 2208 | Cefn Coch | £73,121 | £646,089 | 20.11% | **£129,919** | £97,615 | £79,919 |
| 62 | 2210 | Talsarnau | £34,916 | £214,851 | 35.02% | **£75,249** | £64,506 | £25,249 |
| 63 | 2211 | Tanygrisiau | £13,318 | £271,139 | 12.46% | **£33,780** | £20,223 | £0 |
| 64 | 2212 | Penybryn | £72,503 | £916,559 | 18.52% | **£169,756** | £123,928 | £119,756 |
| 65 | 2213 | Bro Hedd Wyn | £19,860 | £280,787 | 16.89% | **£47,421** | £33,382 | £0 |
| 66 | 2214 | Frongoch | £51,990 | £176,985 | 24.59% | **£43,514** | £34,664 | £0 |
| 67 | 2219 | Tan y Castell | £12,981 | £337,291 | 11.96% | **£40,325** | £23,460 | £0 |
| 68 | 2220 | Ffridd y Llyn | £28,723 | £278,975 | 16.50% | **£46,020** | £32,071 | £0 |
| 69 | 2221 | Maenofferen | £89,198 | £869,194 | 21.51% | **£186,960** | £143,500 | £136,960 |
| 70 | 2227 | Hirael | £66,639 | £641,603 | 20.99% | **£134,650** | £102,570 | £84,650 |
| 71 | 2228 | Craig y Deryn | £36,733 | £547,015 | 6.17% | **£33,769** | £6,419 | £0 |
| 72 | 2229 | Bro Llifon | £44,655 | £604,353 | 21.13% | **£127,677** | £97,460 | £77,677 |
| 73 | 3004 | Pont y Gôf | £36,162 | £398,416 | 15.04% | **£59,902** | £39,981 | £9,902 |
| 74 | 3005 | Maesincla | £116,579 | £1,198,808 | 13.23% | **£158,545** | £98,605 | £108,545 |
| 75 | 3009 | Faenol | £82,449 | £717,990 | 19.77% | **£141,933** | £106,033 | £91,933 |
| 76 | 3010 | Foelgron | £1,028 | £186,381 | 13.37% | **£24,919** | £15,600 | £0 |
| 77 | 3013 | Llandygai | £28,461 | £514,009 | 10.71% | **£55,064** | £29,363 | £5,064 |
| 78 | 3018 | Llandwrog | £18,462 | £217,135 | 12.41% | **£26,946** | £16,090 | £0 |
| 79 | 3023 | Llanystumdwy | £814 | £210,810 | 9.59% | **£20,211** | £9,670 | £0 |
| 80 | 3029 | Tregarth | £26,232 | £426,081 | 24.68% | **£105,162** | £83,858 | £55,162 |

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2021

atodiad / appendix 1

## Schools' Balances 31 March 2021

| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Ysgol School No | Enw Ysgol School Name | Balansau 31/03/2020 Balances | Dyraniad Terfynol 2020/21 Final Allocation | Balansau fel % o'r Dyraniad Balances as a % of Allocation | Balansau 31/03/2021 Balances | Cyfanswm Balansau dros Total Balances over 5% 31/03/2021 | Cyfanswm Balansau dros Total Balances over £50k or £100k 31/03/2021 |
| 81 | 3030 | Cae Top | £1,080 | £862,246 | 7.20% | **£62,083** | £18,971 | £12,083 |
| 82 | 3300 | Santes Helen | £33,222 | £287,895 | 27.40% | **£78,892** | £64,497 | £28,892 |
| 83 | 3301 | Our Lady | £17,894 | £457,660 | 16.74% | **£76,606** | £53,723 | £26,606 |
| | | **CYNRADD / PRIMARY** | **£2,469,193** | **£36,754,603** | **15.91%** | **£5,847,190** | **£4,063,114** | **£2,388,912** |

19 ysgolion yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2020/21

19 schools received the minimum staffing protection in 2020/21

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 3401 | Bro Idris | £434,473 | £2,933,957 | 15.58% | **£457,150** | £310,452 | £357,150 |
| 2 | 3402 | Godre'r Berwyn | -£35,579 | £2,752,429 | 7.23% | **£198,978** | £61,357 | £98,978 |
| | | **DILYNOL / MIDDLE** | **£398,894** | **£5,686,387** | **11.54%** | **£656,128** | **£371,809** | **£456,128** |

1 ysgol yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio yn 2020/21

1 school received the minimum staffing protection in 2020/21

**Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2021**

**Schools' Balances 31 March 2021**

atodiad / appendix 1

| | A | B | C | CH | D | DD | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif Ysgol School No** | **Enw Ysgol School Name** | **Balansau 31/03/2020 Balances** | **Dyraniad Terfynol 2020/21 Final Allocation** | **Balansau fel % o'r Dyraniad Balances as a % of Allocation** | **Balansau 31/03/2021 Balances** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over 5% 31/03/2021** | **Cyfanswm Balansau dros Total Balances over £50k or £100k 31/03/2021** |
| 1 | 4002 | Dyffryn Ogwen | -£27,790 | £2,567,021 | 9.30% | **£238,648** | £110,297 | £138,648 |
| 2 | 4003 | Botwnnog | -£20,950 | £2,310,810 | 13.90% | **£321,198** | £205,657 | £221,198 |
| 3 | 4004 | Brynrefail | £225,526 | £3,745,270 | 11.34% | **£424,698** | £237,434 | £324,698 |
| 4 | 4007 | Dyffryn Nantlle | £27,212 | £2,322,790 | 10.61% | **£246,374** | £130,234 | £146,374 |
| 5 | 4009 | Eifionydd | £126,493 | £2,106,378 | 18.09% | **£381,122** | £275,803 | £281,122 |
| 6 | 4031 | Y Moelwyn | £129,708 | £1,943,609 | 12.88% | **£250,385** | £153,205 | £150,385 |
| 7 | 4032 | Tywyn | £115,668 | £1,833,961 | 14.41% | **£264,273** | £172,575 | £164,273 |
| 8 | 4034 | Ardudwy | £72,606 | £1,847,968 | 11.31% | **£209,013** | £116,615 | £109,013 |
| 9 | 4036 | Friars | £7,250 | £6,359,101 | 6.47% | **£411,485** | £93,530 | £311,485 |
| 10 | 4037 | Tryfan | £29,937 | £2,540,666 | 6.42% | **£163,055** | £36,022 | £63,055 |
| 11 | 4039 | Syr Hugh Owen | £529,297 | £4,493,483 | 14.44% | **£648,636** | £423,962 | £548,636 |
| 12 | 4040 | Glan Y Môr | £213,603 | £2,640,764 | 10.98% | **£289,836** | £157,798 | £189,836 |
| | | **UWCHRADD / SECONDARY** | **£1,428,560** | **£34,711,820** | **11.09%** | **£3,848,722** | **£2,113,131** | **£2,648,722** |
| 1 | 3502 | Pendalar | £7,149 | £2,220,986 | 9.43% | **£209,496** | £98,447 | £109,496 |
| 2 | 3503 | Hafod Lon | £29,194 | £1,993,495 | 9.62% | **£191,726** | £92,051 | £91,726 |
| | | **ARBENNIG / SPECIAL** | **£36,343** | **£4,214,481** | **9.52%** | **£401,222** | **£190,498** | **£201,222** |
| | | **CYFANSWM / TOTAL** | **£4,332,991** | **£81,367,291** | **13.22%** | **£10,753,263** | **£6,738,553** | **£5,694,984** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **28 Mehefin 2021** |
| **TEITL** | **Grantiau Ysgolion 2021/22** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

Er gwybodaeth, dyma grynodeb o grantiau ysgolion 2021/22 sydd wedi'u datgan hyd yma –

| | CYNRADD | DILYNOL | UWCHRADD | ARBENNIG | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant Gwella Addysg - | | | | | |
| Cyfnod Sylfaen | £2,895,487 | £164,855 | | | **£3,060,342** |
| Arall | £502,208 | £58,379 | £348,357 | £14,860 | **£923,804** |
| Grant Datblygu Disgyblion - | | | | | |
| dan 5 oed | £354,200 | £29,900 | | £5,750 | **£389,850** |
| 5-15oed | £1,129,300 | £100,050 | £769,350 | £60,950 | **£2,059,650** |
| Grant Dysgu Proffesiynol | £212,613 | £31,916 | £192,600 | £13,917 | **£451,046** |
| Grant Rhaglen Cyflymu Dysgu HAF 2021 | £547,179 | £68,642 | £380,672 | £11,138 | **£1,007,631** |
| Grant 6ed | | £270,247 | £3,468,620 | | **£3,738,867** |
| Grant Pontio Uwchradd | | £10,260 | £120,928 | | **£131,188** |
| **Cyfanswm Grantiau 2021/22** | **£5,640,987** | **£734,249** | **£5,280,527** | **£106,615** | **£11,762,378** |

Darparwyd amcangyfrif o Grant Gwella Addysg a Grant Datblygu Disgyblion i'r ysgolion fel rhan o'r broses o osod cyllidebau 2021/22.

Ers hynny mae'r grantiau wedi'u cadarnhau ac mae lleihad o £34mil yn y Grant Gwella Addysg - Arall.

Mae'r Gweinidog Addysg, Jeremy Miles, wedi datgan ar 16 Mehefin bod dros £150miliwn wedi'i ymrwymo yn 2021/22 i gefnogi dysgwyr. Tra ein bod yn ymwybodol o rhai elfennau o'r arian yma, nid ydym wedi derbyn cadarnhad hyd yma o'r arian sydd ar gael i ysgolion Gwynedd.

Argymhelliad
Derbyn y wybodaeth

# Grantiau Ysgolion 2021/22 Schools' Grants

atodiad / appendix 1

| | | | Grant Gwella Addysg / School Improvement Grant | | Grant Datblygu Disgyblion / Pupil Development Grant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif No | Ysgol / School | Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase | Arall / Other | dan 5oed / under 5years | 5-15oed / years | Grant Datblygu Proffesiynol / Proffesional Development Grant | Grant Rhaglen Cyflymu Dysgu HAF 2021 / Accelerated Learning Programme Grant SUMMER 2021 | Grant 6ed Dosbarth / 6th Form Grant | Grant Pontio Uwchradd HAF 2021 / Secondary Transitional Grant SUMMER 2021 |
| 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £52,135 | £9,244 | £9,200 | £33,350 | £3,524 | £9,217 | | |
| 2 | 2004 | Nefyn | £40,203 | £7,253 | £6,900 | £19,550 | £2,827 | £7,160 | | |
| 3 | 2006 | Llanrug | £95,964 | £12,857 | £4,600 | £19,550 | £5,235 | £12,439 | | |
| 4 | 2008 | Abererch | £21,549 | £4,235 | £0 | £12,650 | £2,114 | £4,517 | | |
| 5 | 2009 | Abersoch | £1,786 | £415 | £0 | £0 | £751 | £593 | | |
| 6 | 2010 | Beddgelert | £7,668 | £1,563 | £0 | £3,450 | £1,007 | £2,065 | | |
| 7 | 2011 | Bethel | £49,043 | £7,251 | £1,150 | £8,050 | £2,525 | £6,100 | | |
| 8 | 2013 | Bodfeurig | £23,700 | £3,012 | £0 | £4,600 | £1,712 | £3,157 | | |
| 9 | 2015 | Borthygest | £7,567 | £1,858 | £2,300 | £2,300 | £1,270 | £3,552 | | |
| 10 | 2017 | Brynaerau | £18,390 | £3,188 | £3,450 | £6,900 | £1,657 | £2,767 | | |
| 11 | 2026 | Y Gelli | £81,881 | £11,298 | £4,600 | £6,900 | £4,531 | £9,687 | | |
| 12 | 2028 | Penybryn | £0 | £8,428 | | £21,850 | £2,780 | £8,551 | | |
| 13 | 2033 | Treferthyr | £38,791 | £5,843 | £0 | £16,100 | £2,416 | £7,286 | | |
| 14 | 2036 | Chwilog | £20,978 | £2,673 | £0 | £1,150 | £1,719 | £2,271 | | |
| 15 | 2039 | Crud y Werin | £22,120 | £3,065 | £0 | £2,300 | £1,317 | £2,599 | | |
| 16 | 2042 | Dolbadarn | £52,706 | £9,075 | £3,450 | £12,650 | £4,035 | £9,824 | | |
| 17 | 2046 | Edern | £15,398 | £4,360 | £0 | £19,550 | £1,510 | £4,854 | | |
| 18 | 2047 | Felinwnda | £3,466 | £1,143 | £2,300 | £3,450 | £1,061 | £1,499 | | |
| 19 | 2048 | Bro Plenydd | £23,700 | £3,903 | £0 | £1,150 | £1,518 | £3,474 | | |
| 20 | 2049 | Garndolbenmaen | £5,617 | £2,151 | £4,600 | £9,200 | £1,076 | £2,523 | | |
| 21 | 2060 | Llanbedrog | £33,313 | £5,210 | £0 | £6,900 | £1,959 | £7,266 | | |
| 22 | 2066 | Llangybi | £5,886 | £1,813 | £2,300 | £2,300 | £1,007 | £1,385 | | |
| 23 | 2069 | Llanllechid | £100,064 | £14,776 | £2,300 | £16,100 | £5,158 | £13,379 | | |
| 24 | 2070 | Llanllyfni | £28,002 | £4,336 | £4,600 | £11,500 | £1,804 | £4,430 | | |
| 25 | 2075 | Morfa Nefyn | £23,330 | £2,224 | £3,450 | £6,900 | £1,007 | £2,516 | | |
| 26 | 2078 | Baladeulyn | £4,777 | £1,568 | £4,600 | £6,900 | £1,107 | £1,682 | | |
| 27 | 2081 | Nebo | £0 | £771 | | £2,300 | £1,015 | £790 | | |
| 28 | 2085 | Penisarwaen | £15,129 | £2,676 | £0 | £2,300 | £1,464 | £2,641 | | |
| 29 | 2089 | Bro Lleu | £58,756 | £11,837 | £12,650 | £40,250 | £4,120 | £11,528 | | |
| 30 | 2093 | Pentreuchaf | £26,860 | £5,135 | £4,600 | £17,250 | £2,416 | £5,256 | | |
| 31 | 2097 | Rhiwlas | £10,726 | £2,246 | £2,300 | £4,600 | £1,177 | £2,245 | | |
| 32 | 2098 | Rhosgadfan | £10,928 | £2,614 | £0 | £11,500 | £1,510 | £2,365 | | |
| 33 | 2099 | Rhostryfan | £26,960 | £4,176 | £4,600 | £2,300 | £2,339 | £3,248 | | |

# Grantiau Ysgolion 2021/22 Schools' Grants

atodiad / appendix 1

| | Rhif No | Ysgol / School | Grant Gwella Addysg / School Improvement Grant: Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase | Grant Gwella Addysg / School Improvement Grant: Arall / Other | Grant Datblygu Disgyblion / Pupil Development Grant: dan 5oed / under 5years | Grant Datblygu Disgyblion / Pupil Development Grant: 5-15oed / years | Grant Datblygu Proffesiynol / Proffesional Development Grant | Grant Rhaglen Cyflymu Dysgu HAF 2021 / Accelerated Learning Programme Grant SUMMER 2021 | Grant 6ed Dosbarth / 6th Form Grant | Grant Pontio Uwchradd HAF 2021 / Secondary Transitional Grant SUMMER 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | 2103 | Sarn Bach | £7,197 | £2,588 | £2,300 | £5,750 | £1,015 | £3,232 | | |
| 35 | 2104 | Eifion Wyn | £63,899 | £10,892 | £2,300 | £14,950 | £4,035 | £11,128 | | |
| 36 | 2108 | Talysarn | £33,481 | £5,952 | £4,600 | £17,250 | £2,269 | £6,141 | | |
| 37 | 2110 | Tremadog | £44,035 | £6,323 | £2,300 | £11,500 | £2,525 | £6,360 | | |
| 38 | 2111 | Yr Eifl | £14,087 | £2,855 | £0 | £9,200 | £1,712 | £2,665 | | |
| 39 | 2112 | Tudweiliog | £19,129 | £2,663 | £0 | £1,150 | £1,115 | £2,139 | | |
| 40 | 2113 | Waunfawr | £32,372 | £7,293 | £5,750 | £18,400 | £3,020 | £7,211 | | |
| 41 | 2116 | Glancegin | £90,082 | £17,524 | £32,200 | £71,300 | £7,048 | £29,340 | | |
| 42 | 2119 | Yr Hendre | £137,540 | £23,629 | £27,600 | £63,250 | £9,115 | £21,966 | | |
| 43 | 2122 | Bontnewydd | £73,411 | £9,046 | £2,300 | £5,750 | £3,826 | £7,868 | | |
| 44 | 2123 | Y Garnedd | £109,475 | £19,750 | £5,750 | £37,950 | £8,310 | £23,075 | | |
| 45 | 2125 | Cymerau | £98,787 | £17,126 | £11,500 | £44,850 | £6,970 | £20,154 | | |
| 46 | 2126 | Abercaseg | £80,133 | £6,968 | £16,100 | £17,250 | £2,780 | £7,364 | | |
| 47 | 2127 | Y Felinheli | £68,100 | £8,843 | £0 | £6,900 | £3,772 | £7,447 | | |
| 48 | 2181 | Y Traeth | £77,982 | £12,671 | £16,100 | £29,900 | £4,035 | £16,811 | | |
| 49 | 2185 | Corris | £8,407 | £2,045 | £0 | £2,300 | £1,355 | £3,072 | | |
| 50 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | £25,112 | £5,321 | £0 | £9,200 | £2,014 | £6,294 | | |
| 51 | 2190 | Bro Cynfal | £15,028 | £3,449 | £5,750 | £5,750 | £1,758 | £3,883 | | |
| 52 | 2192 | Edmwnd Prys | £4,307 | £1,796 | £2,300 | £3,450 | £1,262 | £1,760 | | |
| 53 | 2194 | Llanbedr | £14,390 | £2,637 | £1,150 | £3,450 | £1,324 | £3,535 | | |
| 54 | 2198 | Y Garreg | £5,987 | £1,329 | £3,450 | £3,450 | £1,526 | £1,563 | | |
| 55 | 2199 | O. M. Edwards | £28,372 | £4,908 | £0 | £3,450 | £2,517 | £4,633 | | |
| 56 | 2205 | Manod | £29,313 | £6,164 | £5,750 | £18,400 | £2,517 | £5,573 | | |
| 57 | 2207 | Pennal | £5,046 | £1,158 | £0 | £3,450 | £1,154 | £1,475 | | |
| 58 | 2208 | Cefn Coch | £51,227 | £8,405 | £2,300 | £10,350 | £3,903 | £8,830 | | |
| 59 | 2210 | Talsarnau | £13,348 | £2,205 | £2,300 | £4,600 | £1,247 | £2,173 | | |
| 60 | 2211 | Tanygrisiau | £10,188 | £3,344 | £3,450 | £13,800 | £1,774 | £3,484 | | |
| 61 | 2212 | Penybryn, Tywyn | £87,057 | £13,799 | £2,300 | £29,900 | £5,336 | £16,166 | | |
| 62 | 2213 | Bro Hedd Wyn | £20,070 | £3,023 | £0 | £5,750 | £1,309 | £2,687 | | |
| 63 | 2214 | Bro Tryweryn | £16,238 | £2,177 | £0 | £0 | £1,510 | £1,376 | | |
| 64 | 2219 | Tan y Castell | £21,549 | £3,970 | £3,450 | £2,300 | £1,712 | £6,776 | | |
| 65 | 2220 | Ffridd y Llyn | £22,893 | £3,768 | £3,450 | £4,600 | £1,549 | £3,006 | | |
| 66 | 2221 | Maenofferen | £73,108 | £12,938 | £9,200 | £34,500 | £5,034 | £12,408 | | |

# Grantiau Ysgolion 2021/22 Schools' Grants

atodiad / appendix 1

| | Rhif No | Ysgol / School | Grant Gwella Addysg / School Improvement Grant | | Grant Datblygu Disgyblion / Pupil Development Grant | | Grant Datblygu Proffesiynol / Proffesional Development Grant | Grant Rhaglen Cyflymu Dysgu HAF 2021 / Accelerated Learning Programme Grant SUMMER 2021 | Grant 6ed Dosbarth / 6th Form Grant | Grant Pontio Uwchradd HAF 2021 / Secondary Transitional Grant SUMMER 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase | Arall / Other | dan 5oed / under 5years | 5-15oed / years | | | | |
| 67 | 2227 | Hirael | £67,462 | £11,040 | £14,950 | £40,250 | £3,834 | £15,016 | | |
| 68 | 2228 | Craig y Deryn | £32,842 | £5,720 | £2,300 | £8,050 | £2,974 | £7,318 | | |
| 69 | 2229 | Bro Llifon | £54,656 | £8,104 | £2,300 | £14,950 | £3,524 | £7,794 | | |
| 70 | 3004 | Pont y Gôf | £27,801 | £4,926 | £0 | £4,600 | £2,021 | £4,737 | | |
| 71 | 3005 | Maesincla | £90,082 | £21,263 | £40,250 | £100,050 | £6,854 | £20,698 | | |
| 72 | 3009 | Y Faenol | £68,537 | £10,769 | £2,300 | £11,500 | £4,484 | £16,206 | | |
| 73 | 3010 | Foel Gron | £7,197 | £2,142 | £0 | £4,600 | £1,007 | £3,018 | | |
| 74 | 3013 | Llandygai | £31,632 | £6,739 | £10,350 | £25,300 | £2,920 | £7,445 | | |
| 75 | 3018 | Llandwrog | £11,869 | £1,629 | £0 | £0 | £1,154 | £1,870 | | |
| 76 | 3023 | Llanystumdwy | £4,676 | £1,115 | £0 | £1,150 | £1,007 | £1,180 | | |
| 77 | 3029 | Tregarth | £35,262 | £5,600 | £2,300 | £10,350 | £2,718 | £4,218 | | |
| 78 | 3030 | Cae Top | £83,931 | £13,325 | £13,800 | £23,000 | £4,260 | £18,578 | | |
| 79 | 3300 | Santes Helen | £13,550 | £3,956 | £3,450 | £19,550 | £1,719 | £5,151 | | |
| 80 | 3301 | Ein Harglwyddes | £37,245 | £7,125 | £4,600 | £16,100 | £3,121 | £9,486 | | |
| | | **CYNRADD / PRIMARY** | **£2,895,487** | **£502,208** | **£354,200** | **£1,129,300** | **£212,613** | **£547,179** | | |
| | | | | | | | | | | |
| 1 | 3401 | Bro Idris | £111,039 | £31,865 | £21,850 | £52,900 | £16,055 | £39,236 | £0 | £1,886 |
| 2 | 3402 | Godre'r Berwyn | £53,816 | £26,514 | £8,050 | £47,150 | £15,861 | £29,407 | £270,247 | £8,374 |
| | | **DILYNOL / MIDDLE** | **£164,855** | **£58,379** | **£29,900** | **£100,050** | **£31,916** | **£68,642** | **£270,247** | **£10,260** |

# Grantiau Ysgolion 2021/22 Schools' Grants

**atodiad / appendix 1**

| | Rhif No | Ysgol / School | Grant Gwella Addysg / School Improvement Grant: Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase | Grant Gwella Addysg / School Improvement Grant: Arall / Other | Grant Datblygu Disgyblion / Pupil Development Grant: dan 5oed / under 5years | Grant Datblygu Disgyblion / Pupil Development Grant: 5-15oed / years | Grant Datblygu Proffesiynol / Proffesional Development Grant | Grant Rhaglen Cyflymu Dysgu HAF 2021 / Accelerated Learning Programme Grant SUMMER 2021 | Grant 6ed Dosbarth / 6th Form Grant | Grant Pontio Uwchradd HAF 2021 / Secondary Transitional Grant SUMMER 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4002 | DYFFRYN OGWEN | | £23,691 | | £54,050 | £14,428 | £26,335 | £330,805 | £9,166 |
| 2 | 4003 | BOTWNNOG | | £23,804 | | £39,100 | £13,375 | £24,764 | £0 | £3,659 |
| 3 | 4004 | BRYNREFAIL | | £36,327 | | £71,300 | £21,367 | £32,926 | £648,114 | £18,784 |
| 4 | 4007 | DYFFRYN NANTLLE | | £21,955 | | £49,450 | £12,291 | £21,217 | £273,970 | £7,959 |
| 5 | 4009 | EIFIONYDD | | £21,571 | | £44,850 | £9,998 | £25,630 | £0 | £2,867 |
| 6 | 4031 | Y MOELWYN | | £19,873 | | £49,450 | £10,246 | £16,903 | £0 | £2,225 |
| 7 | 4032 | TYWYN | | £18,427 | | £39,100 | £10,595 | £31,327 | £0 | £2,414 |
| 8 | 4034 | ARDUDWY | | £18,154 | | £31,050 | £10,881 | £27,811 | £0 | £1,961 |
| 9 | 4036 | FRIARS | | £65,961 | | £140,300 | £36,857 | £74,264 | £1,055,937 | £35,569 |
| 10 | 4037 | TRYFAN | | £20,687 | | £63,250 | £14,552 | £28,611 | £479,285 | £13,051 |
| 11 | 4039 | SYR HUGH OWEN | | £48,847 | | £128,800 | £24,062 | £42,919 | £680,509 | £19,275 |
| 12 | 4040 | GLAN Y MOR | | £29,060 | | £58,650 | £13,948 | £27,962 | £0 | £3,998 |
| | | **UWCHRADD / SECONDARY** | | **£348,357** | | **£769,350** | **£192,600** | **£380,672** | **£3,468,620** | **£120,928** |
| | | | | | | | | | | |
| 1 | 3502 | Pendalar | | £7,591 | £4,600 | £27,600 | £6,544 | £5,227 | | |
| 2 | 3503 | Hafod Lon | | £7,268 | £1,150 | £33,350 | £7,373 | £5,911 | | |
| | | **ARBENNIG / SPECIAL** | | **£14,860** | **£5,750** | **£60,950** | **£13,917** | **£11,138** | | |
| | | | | | | | | | | |
| | | **CYFANSWM / TOTAL** | **£3,060,342** | **£923,804** | **£389,850** | **£2,059,650** | **£451,046** | **£1,007,630** | **£3,738,867** | **£131,188** |

Eitem 10

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **28 Mehefin 2021** |
| **TEITL** | **Dyraniad Cynnal Tiroedd Ysgolion** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo ymgynghori ar newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23** |
| **AWDUR** | **Owen Owens**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

1 Cyllid Cynnal Tiroedd Ysgolion

Mae cyllid cynnal tiroedd yn cael ei ddyrannu i ysgolion ar sail hanesyddol ar hyn o bryd. Yn 2021-22, dyrannwyd cyfanswm o £422,371 i ysgolion - £207,021 (safleoedd uwchradd), £6,920 (safleoedd arbennig) a £208,430 (safleoedd cynradd).

2 Ail-fodelu dyraniadau ysgolion

Yng nghyfarfod Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2018, cyflwynwyd eitem ar 'Ddull Dyrannu Cyllid Cynnal Tiroedd Ysgolion' oedd yn cyflwyno'r bwriad o ail-fodelu dyraniadau ysgolion i fod yn agosach i fod ar sail anghenion y safleoedd yn hytrach nac ar sail hanesyddol. Mae cofnod y cyfarfod yn dweud '*Nodwyd nad yw'r fforwm yn anghytuno mewn egwyddor ond fod angen rhagrybuddio ysgolion os yn cael llai o arian. Nodwyd y byddai angen ail-ymweld â chost y Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal Tiroedd canolog wrth gyflwyno'r dull dyrannu newydd*.'

Yn ystod y rownd o gynnig cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer Mawrth 2021, cynigwyd estyniad ar y CLG Cynnal Tiroedd am flwyddyn ychwanegol gan fod y gwaith yn parhau o fodelu dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion fel eu bod yn adlewyrchu'n well ofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol.

Erbyn hyn, mae'r gwaith o adnabod yr Oriau Craidd sydd eu hangen ar gyfer cynnal tiroedd pob ysgol bron wedi'i gwblhau. Mae colofn yn **Atodiad 1** yn cyfeirio at Oriau Craidd pob ysgol. Lle nad yw'r ffigur ar gyfer Oriau Craidd ysgol wedi'i gadarnhau eto, fe amlygir hynny.

Diffinnir Oriau Craidd safle fel yr oriau gwaith cynnal tiroedd fyddai ei angen er mwyn sicrhau gwasanaeth o lefel priodol sydd yn ddigonol/addas i gynnal digwyddiadau a gynhelir, sicrhau lles a diogelwch y disgyblion ynghyd â chynnal safon weledol a chadwriaethol y safle.

3 Modelau dyrannu posib

Model 1

Cymryd ***dyraniad cynnal tiroedd presennol fesul sector*** ysgol a'i ail-ddosbarthu o fewn y sector mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd y safleoedd unigol yn y sector

Model 2

Cymryd ***cyfanswm y dyraniad cynnal tiroedd presennol*** i ysgolion a'i ail-ddosbarthu i ysgolion mewn cymhareb â'r dadansoddiad o anghenion oriau craidd cynnal tiroedd safleoedd yr ysgolion unigol.

Mae **Atodiad 1** yn dangos yr effaith fesul ysgol o ddefnyddio'r ddau fodel uchod mewn cymhariaeth â dyraniad cyllid cynnal tiroedd 2021-22.

4 Ymgynghori

Fel y nodwyd uchod, mae cofnod cyfarfod Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2018 yn dweud '*Nodwyd nad yw'r fforwm yn anghytuno mewn egwyddor ond fod angen rhagrybuddio ysgolion os yn cael llai o arian'*.

Felly, bwriedir ymgynghori â phob ysgol ynglŷn â'u cefnogaeth (neu beidio) i newid y dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd presennol.

Os ydynt o blaid newid, gofynnir iddynt nodi os ydynt yn ffafrio Model 1 ynteu Model 2.

Bydd yr ymgynghori hefyd yn gwahodd unrhyw sylwadau fyddai'r ysgolion yn dymuno eu cyflwyno mewn perthynas â'r bwriad i newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion.

5 Argymhelliad

Bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn cymeradwyo ymgynghoriad gydag ysgolion ar y bwriad i newid dull dyrannu cyllid cynnal tiroedd ysgolion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

ATODIAD / APPENDIX 1

**Dyraniad Cynnal Tir Ysgolion 2021/22**
**Ground Maintenance Allocation 2021/22**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cynradd / primary | £208,430 | | £233,064 | |
| uwchradd / secondary | £207,021 | | £172,498 | |
| arbennig / special | £6,920 | £422,370 | £16,808 | £422,370 |

| | | | dyraniad 2021/22 allocation | oriau craidd / core hours | MODEL 1 fesul sector / per sector . | + / - | MODEL 2 cyfanswm holl ysgolion / total for all schools | + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2000 | Ysgol Gwaun Gynfi | £903 | 34.27 | **£1,575** | £672 | **£1,762** | £859 |
| 2 | 2004 | Ysgol Nefyn | £2,237 | 48.55 | **£2,232** | -£5 | **£2,496** | £258 |
| 3 | 2006 | Ysgol Llanrug | £2,060 | 64.50 | **£2,965** | £905 | **£3,315** | £1,256 |
| 4 | 2008 | Ysgol Abererch | £2,131 | 37.78 | **£1,737** | -£394 | **£1,942** | -£189 |
| 5 | 2009 | Ysgol Abersoch | £1,101 | 20.50 | **£942** | -£158 | **£1,054** | -£47 |
| 6 | 2010 | Ysgol Beddgelert | £1,776 | 32.51 | **£1,494** | -£281 | **£1,671** | -£104 |
| 7 | 2011 | Ysgol Bethel | £3,072 | 47.95 | **£2,204** | -£868 | **£2,465** | -£607 |
| 8 | 2013 | Ysgol Bodfeurig | £2,965 | 50.24 | **£2,309** | -£656 | **£2,582** | -£383 |
| 9 | 2015 | Ysgol Borthygest | £1,491 | 40.26 | **£1,851** | £359 | **£2,069** | £578 |
| 10 | 2017 | Ysgol Brynaerau | £1,535 | 49.66 | **£2,283** | £748 | **£2,553** | £1,018 |
| 11 | 2026 | Ysgol Y Gelli | £3,711 | 80.00 | **£3,677** | -£33 | **£4,112** | £401 |
| 12 | 2028 | Ysgol Penybryn | £657 | 19.60 | **£901** | £244 | **£1,007** | £351 |
| 13 | 2033 | Ysgol Treferthyr | £1,811 | 35.56 | **£1,635** | -£176 | **£1,828** | £17 |
| 14 | 2036 | Ysgol Chwilog | £1,687 | 33.78 | **£1,553** | -£134 | **£1,736** | £50 |
| 15 | 2039 | Ysgol Crud Y Werin | £6,374 | 106.03 | **£4,874** | -£1,500 | **£5,450** | -£924 |
| 16 | 2042 | Ysgol Dolbadarn | £231 | 15.24 | **£701** | £470 | **£783** | £553 |
| 17 | 2046 | Ysgol Edern | £3,835 | 61.55 | **£2,829** | -£1,006 | **£3,164** | -£671 |
| 18 | 2047 | Ysgol Felinwnda | £178 | 24.99 | **£1,149** | £971 | **£1,285** | £1,107 |
| 19 | 2048 | Ysgol Bro Plennydd | £2,575 | 40.97 | **£1,883** | -£691 | **£2,106** | -£469 |
| 20 | 2049 | Ysgol Garndolbenmaen | £763 | 28.98 | **£1,332** | £569 | **£1,490** | £726 |
| 21 | 2060 | Ysgol Llanbedrog | £639 | 14.50 | **£667** | £27 | **£745** | £106 |
| 22 | 2066 | Ysgol Llangybi | £1,456 | 32.58 | **£1,498** | £42 | **£1,675** | £219 |
| 23 | 2069 | Ysgol Llanllechid | £2,947 | 78.51 | **£3,609** | £662 | **£4,036** | £1,088 |
| 24 | 2070 | Ysgol Llanllyfni | £1,971 | 46.81 | **£2,152** | £181 | **£2,406** | £435 |
| 25 | 2075 | Ysgol Morfa Nefyn | £1,989 | 29.78 | **£1,369** | -£620 | **£1,531** | -£458 |
| 26 | 2078 | Ysgol Baladeulyn | £657 | 20.11 | **£924** | £267 | **£1,034** | £377 |
| 27 | 2081 | Ysgol Nebo | £479 | 13.49 | **£620** | £141 | **£693** | £214 |
| 28 | 2085 | Ysgol Penisarwaun | £1,598 | 23.51 | **£1,081** | -£517 | **£1,208** | -£390 |
| 29 | 2089 | Ysgol Bro Lleu | £4,989 | 60.78 | **£2,794** | -£2,195 | **£3,124** | -£1,865 |
| 30 | 2093 | Ysgol Pentreuchaf | £1,101 | 24.59 | **£1,130** | £30 | **£1,264** | £163 |
| 31 | 2097 | Ysgol Rhiwlas | £941 | 19.39 | **£891** | -£50 | **£997** | £56 |
| 32 | 2098 | Ysgol Rhosgadfan | £2,006 | 46.99 | **£2,160** | £154 | **£2,415** | £409 |
| 33 | 2099 | Ysgol Rhostryfan | £1,190 | 37.99 | **£1,746** | £557 | **£1,953** | £763 |
| 34 | 2103 | Ysgol Sarn Bach | £1,172 | 25.78 | **£1,185** | £13 | **£1,325** | £153 |
| 35 | 2104 | Ysgol Eifion Wyn | £3,498 | 54.45 | **£2,503** | -£995 | **£2,799** | -£699 |
| 36 | 2108 | Ysgol Talysarn | £2,166 | 61.74 | **£2,838** | £672 | **£3,174** | £1,007 |
| 37 | 2110 | Ysgol Y Gorlan | £1,101 | 28.97 | **£1,332** | £231 | **£1,489** | £388 |
| 38 | 2111 | Ysgol Yr Eifl | £3,036 | 42.59 | **£1,958** | -£1,078 | **£2,189** | -£847 |
| 39 | 2112 | Ysgol Tudweiliog | £1,527 | 32.85 | **£1,510** | -£17 | **£1,689** | £162 |
| 40 | 2113 | Ysgol Waunfawr | £1,545 | 54.78 | **£2,518** | £973 | **£2,816** | £1,271 |
| 41 | 2116 | Ysgol Glancegin | £5,558 | 198.00 | **£9,102** | £3,544 | **£10,178** | £4,620 |
| 42 | 2119 | Ysgol Yr Hendre | £2,796 | 80.32 | **£3,692** | £896 | **£4,129** | £1,332 |
| 43 | 2122 | Ysgol Bontnewydd | £1,971 | 66.62 | **£3,062** | £1,092 | **£3,424** | £1,454 |
| 44 | 2123 | Ysgol Y Garnedd | £3,338 | 100.00 | **£4,597** | £1,259 | **£5,140** | £1,802 |
| 45 | 2125 | Ysgol Cymerau | £3,089 | 57.35 | **£2,636** | -£453 | **£2,948** | -£142 |
| 46 | 2126 | Ysgol Abercaseg | £3,380 | 37.50 | **£1,724** | -£1,656 | **£1,928** | -£1,453 |
| 47 | 2127 | Ysgol Y Felinheli | £3,445 | 63.72 | **£2,929** | -£515 | **£3,275** | -£169 |
| 48 | 2181 | Ysgol Y Traeth | £3,107 | 71.49 | **£3,286** | £179 | **£3,675** | £567 |
| 49 | 2185 | Ysgol Corris | £2,539 | 71.78 | **£3,300** | £761 | **£3,690** | £1,151 |
| 50 | 2189 | Ysgol Dyffryn Ardudwy | £2,450 | 82.00 | **£3,769** | £1,319 | **£4,215** | £1,765 |
| 51 | 2190 | Ysgol Bro Cynfal | £993 | 30.61 | **£1,407** | £414 | **£1,573** | £580 |
| 52 | 2192 | Ysgol Edmwnd Prys | £993 | 32.31 | **£1,485** | £492 | **£1,661** | £667 |
| 53 | 2194 | Ysgol Llanbedr | £1,562 | 54.80 | **£2,519** | £957 | **£2,817** | £1,254 |
| 54 | 2198 | Ysgol Y Garreg | £2,557 | 38.47 | **£1,768** | -£788 | **£1,977** | -£579 |
| 55 | 2199 | Ysgol O.M. Edwards | £5,131 | 119.60 | **£5,498** | £366 | **£6,148** | £1,016 |
| 56 | 2205 | Ysgol Y Manod | £3,161 | 77.82 | **£3,577** | £417 | **£4,000** | £840 |
| 57 | 2207 | Ysgol Pennal | £604 | 50.50 | **£2,321** | £1,718 | **£2,596** | £1,992 |
| 58 | 2208 | Ysgol Cefn Coch | £2,255 | 16.19 | **£744** | -£1,511 | **£832** | -£1,423 |
| 59 | 2210 | Ysgol Talsarnau | £2,557 | 70.00 | **£3,218** | £661 | **£3,598** | £1,041 |
| 60 | 2211 | Ysgol Tanygrisiau | £1,119 | 11.49 | **£528** | -£590 | **£591** | -£528 |
| 61 | 2212 | Ysgol Penybryn | £2,486 | 96.69 | **£4,445** | £1,959 | **£4,970** | £2,484 |
| 62 | 2213 | Ysgol Bro Hedd Wyn | £1,278 | 32.12 | **£1,477** | £198 | **£1,651** | £373 |
| 63 | 2214 | Ysgol Bro Tryweryn | £1,420 | 42.01 | **£1,931** | £511 | **£2,159** | £739 |
| 64 | 2219 | Ysgol Tanycastell | £993 | 28.59 | **£1,314** | £321 | **£1,470** | £476 |
| 65 | 2220 | Ysgol Ffridd Y Llyn | £1,847 | 57.77 | **£2,656** | £809 | **£2,969** | £1,123 |

| | | | dyraniad 2021/22 allocation | oriau craidd / core hours | MODEL 1 fesul sector / per sector . | + / - | MODEL 2 cyfanswm holl ysgolion / total for all schools | + / - |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 66 | 2221 | Ysgol Maenofferen | £4,901 | 60.15 | **£2,765** | -£2,136 | **£3,092** | -£1,809 |
| 67 | 2227 | Ysgol Hirael | £550 | 11.94 | **£549** | -£2 | **£614** | £63 |
| 68 | 2228 | Ysgol Craig y Deryn | £16,254 | 375.25 | **£17,250** | £996 | **£19,288** | £3,034 |
| 69 | 2229 | Ysgol Bro Llifon | £6,923 | 87.50 | **£4,022** | -£2,901 | **£4,498** | -£2,425 |
| 70 | 3004 | Ysgol Pont Y Gof | £2,805 | 43.55 | **£2,002** | -£803 | **£2,239** | -£567 |
| 71 | 3005 | Ysgol Maesincla | £5,238 | 110.30 | **£5,070** | -£168 | **£5,670** | £432 |
| 72 | 3009 | Ysgol Y Faenol | £2,326 | 64.72 | **£2,975** | £649 | **£3,327** | £1,001 |
| 73 | 3010 | Ysgol Foel Gron | £1,669 | 30.69 | **£1,411** | -£258 | **£1,578** | -£92 |
| 74 | 3013 | Ysgol Llandygai | £1,154 | 55.94 | **£2,571** | £1,417 | **£2,875** | £1,721 |
| 75 | 3018 | Ysgol Llandwrog | £2,237 | 55.72 | **£2,561** | £324 | **£2,864** | £627 |
| 76 | 3023 | Ysgol Llanystumdwy | £1,385 | 39.28 | **£1,806** | £421 | **£2,019** | £634 |
| 77 | 3029 | Ysgol Tregarth | £977 | 48.94 | **£2,250** | £1,273 | **£2,516** | £1,539 |
| 78 | 3030 | Ysgol Cae Top | £5,719 | 26.23 | **£1,206** | -£4,513 | **£1,348** | -£4,371 |
| 79 | 3300 | Ysgol Santes Helen | £3,214 | 45.17 | **£2,076** | -£1,137 | **£2,322** | -£892 |
| 80 | 3301 | Ysgol Ein Harglwyddes | £2,557 | 56.19 | **£2,583** | £26 | **£2,888** | £331 |
| | | **cyfanswm cynradd / total primary** | £195,639 | 4,322.43 | **£198,697** | £3,058 | **£222,180** | £26,541 |
| | | | | | | | | |
| 1 | 2187 | Ysgol Bro Idris - safle Dinas Mawddwy | £1,793 | 59.49 | **£2,735** | £941 | **£3,058** | £1,265 |
| 2 | 2197 | Ysgol Bro Idris - safle Llanelltyd | £550 | 18.31 | **£842** | £291 | **£941** | £391 |
| 3 | 2215 | Ysgol Bro Idris - safle Rhydymain | £1,261 | 27.47 | **£1,263** | £2 | **£1,412** | £151 |
| 4 | 2216 | Ysgol Bro Idris - safle Friog | £3,232 | 48.47 | **£2,228** | -£1,003 | **£2,491** | -£740 |
| 5 | 3041 | Ysgol Bro Idris - safle cynradd Dolgellau | £3,427 | 58.00 | **£2,666** | -£761 | **£2,981** | -£446 |
| 6 | 3401 | Ysgol Bro Idris - safle uwchradd Dolgellau | £21,792 | 265.28 | **£16,365** | -£5,427 | **£13,636** | -£8,156 |
| | | **cyfanswm Bro Idris total** | £32,055 | 477.02 | **£26,098** | -£5,957 | **£24,520** | -£7,535 |
| | | | | | | | | |
| 1 | | Ysgol Godre'r Berwyn - cynradd | £2,528 | | **£0** | -£2,528 | **£0** | -£2,528 |
| 2 | 4033 | Ysgol Godre'r Berwyn - uwchradd | £10,430 | 107.99 | **£6,662** | -£3,769 | **£5,551** | -£4,879 |
| | | **cyfanswm Godre'r Berwyn total** | £12,959 | 107.99 | **£6,662** | -£6,297 | **£5,551** | -£7,408 |
| | | | | | | | | |
| 1 | 4002 | Ysgol Dyffryn Ogwen | £9,238 | 138.30 | **£8,532** | -£706 | **£7,109** | -£2,129 |
| 2 | 4003 | Ysgol Botwnnog | £13,401 | 277.82 | **£17,138** | £3,737 | **£14,280** | £879 |
| 3 | 4004 | Ysgol Brynrefail | £13,338 | 233.69 | **£14,416** | £1,078 | **£12,012** | -£1,326 |
| 4 | 4007 | Ysgol Dyffryn Nantlle | £11,178 | 319.45 | **£19,707** | £8,529 | **£16,420** | £5,243 |
| 5 | 4009 | Ysgol Eifionydd | £12,227 | 120.66 | **£7,443** | -£4,783 | **£6,202** | -£6,024 |
| 6 | 4031 | Ysgol Y Moelwyn | £9,815 | 195.00 | **£12,029** | £2,214 | **£10,023** | £208 |
| 7 | 4032 | Ysgol Tywyn | £17,560 | 517.56 | **£31,928** | £14,367 | **£26,603** | £9,043 |
| 8 | 4034 | Ysgol Ardudwy | £19,342 | 270.89 | **£16,711** | -£2,631 | **£13,924** | -£5,418 |
| 9 | 4036 | Ysgol Friars | £21,832 | 304.20 | **£18,766** | -£3,066 | **£15,636** | -£6,195 |
| 10 | 4037 | Ysgol Tryfan | £8,892 | 205.84 | **£12,698** | £3,806 | **£10,581** | £1,689 |
| 11 | 4039 | Ysgol Syr Hugh Owen | £21,674 | 192.17 | **£11,855** | -£9,819 | **£9,878** | -£11,796 |
| 12 | 4040 | Ysgol Glan Y Mor | £16,302 | 207.03 | **£12,771** | -£3,531 | **£10,642** | -£5,660 |
| | | **cyfanswm uwchradd / total secondary** | £174,798 | 2,982.61 | **£183,994** | £9,196 | **£153,311** | -£21,487 |
| | | | | | | | | |
| 1 | 3502 | Ysgol Pendalar | £3,460 | 103.00 | **£2,180** | -£1,280 | **£5,294** | £1,834 |
| 2 | 3503 | Ysgol Hafod Lon | £3,460 | 224.00 | **£4,740** | £1,280 | **£11,514** | £8,054 |
| | | **cyfanswm arbennig / total arbennig** | £6,920 | 327.00 | **£6,920** | £0 | **£16,808** | £9,889 |
| | | | | | | | | |
| | | **cyfanswm / total 2021/22** | **£422,370** | **8,217.05** | **£422,370** | **£0** | **£422,370** | **-£0** |

*amcangyfrif oriau craidd / estimated core hours*

| Cyfarfod | Fforwm Cyllid Ysgolion |
|---|---|
| Dyddiad | Mehefin 2021 |
| Swyddog | Ffion E Ellis |
| Teitl yr Eitem | Diweddariad Gweithgor Cyllid ADY |

# Diweddariad Gweithgor Cyllid ADY

Ym Medi 2019 Cyflwynwyd Adroddiad Ymchwiliad Gwariant Cyllid Integreiddio i Fwrdd Rheoli Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Cynigwyd bod y gwaith yn parhau trwy sefydlu gweithgor ymgynghori gydag ysgolion. Cynrychiolaeth i gael ei adnabod trwy'r grwpiau strategol Penaethiaid yng Ngwynedd ac Ynys Môn a'r adrannau cyllid. Adrodd i Fforymau Cyllid Gwynedd ac Ynys Môn pan yn amserol.

Ionawr a Chwefror 2020 Bu Arolygiad Allanol o'r Gwasanaeth ADY a CH yn ystod y cyfnod hwn. Roedd canfyddiadau'r Arolwg yn cadarnhau'r hyn sydd wedi ei gynnig o ran opsiynau ac argymhellion y Bwrdd Rheoli.

Ym Mawrth 2020 Bu i aelodaeth ar gyfer y grŵp gael eu hadnabod trwy ofyn am gynrychiolaeth drwy'r grwpiau strategol:

- *1 o Bennaethiaid Ffederasiwn Gwynedd*
- *1 o Grŵp Strategol Uwchradd Gwynedd*
- *1 o Bennaethiaid Uwchradd Môn*
- *1 o Grŵp Strategol Pennaethiaid Cynradd Môn*
- *Uwch Reolwr ADY a CH*
- *Cynrychiolaeth Adrannau Gyllid Gwynedd a Môn*
- *Rheolwr Prosiect ADY a CH*

Yng Nghyfarfod diweddaraf y grŵp ym Mis Chwefror 2021 bu i'r Gweithgor ystyried saith model gwahanol o ar gyfer ariannu. Roedd pob model yn gwneud defnydd o ddata PLASC:

Y model a oedd yn cael ei ffafrio gan y gweithgor oedd Model 7. Cafwyd y sylwadau canlynol:

- Model 7 y'w run tecaf o ran diwallu anghenion ein disgyblion
- Model 7 sy'n adlewyrchu wir anghenion y disgyblion; nifer o modelau eraill yn rhagdybio sefyllfa, yn hytrach na'r hyn sy'n adlewyrchu wir anghenion y disgyblion
- A fyddai posib edrych ar fodel hwy; treigl 2 neu dair blynedd er mwyn i ysgolion wreiddio darpariaethau a buddsoddi mewn uwchsgilio staff
- Cyfnod hwyach yn rhoi mwy o sefydlogrwydd staff
- Yr angen am *swm wrth gefn* addas
- pwysigrwydd cywirdeb data CYBLD/PLASC
- Ystyried pwysiad ffatorau o fewn y fformiwla
- ystyriaeth symud cyfnodau e.e. meithrin-cynradd; cynradd-uwchradd ac uwchradd-addysgol ôl-orfodol.

## Camau nesaf

Penderfyniad y Gweithgor yw i wneud rhagor o waith ar fodel 7 – gan gynnwys:

- Hyd y cyfnod ariannu.
- Trosiant plant o fewn y model
- Ystyried yr Isafswm swm y mae ysgolion ei angen
- Sut i adnabod y disgyblion mwyaf dwys – meini prawf ar gyfer mynediad at y *swm wrth gefn*
- Ymgynghori pellach gyda rhanddeiliaid wrth wneud y gwaith hwn.

Gobeithir y bydd gwaith pellach ar y model yn galluogi cynnig model terfynol ar gyfer Fforwm Cyllid Hydref/Tachwedd 2021, a hynny ar gyfer gweithredu ym Medi 2022 neu Ebrill 2023.

# Gweithgor Cyllid ADY
# Gwynedd ac Ynys Môn

Chwefror 2021

- Pob model yn cael ei adolygu yn flynyddol, felly'r cyllid yn cael ei ddyrannu yn flynyddol.
- Rol y Panel Cymedroli – Cymedroli cynnwys CDUA a sicrhau fod y ddarpariaeth yn cael ei ddarparu yn unol ar gofynion statudol.

| Model | Disgrifiad | Pros | Cons |
|---|---|---|---|
| Model 1 | Parhau gyda'r modelau presennol.<br>Mae'r modelau ar hyn o bryd yn seiliedig ar gyfuniad o ddyrannu cyllid ar sail oriau o'r panel a rhanniad ar fformiwla. Mae hyn yn amrywio rhwng Mon a Gwynedd, ac hefyd rhwng cynradd ac uwchradd | Rheolaeth yn ol Meini Prawf unigolion<br>Maint yr ysgol ddim yn cael effaith (h.y. ymateb i angen unigolion) | Dim hyblygrwydd na sefydlogrwydd – model cymleth<br>Penderfyniadau panel yn cael effaith ar y map darpariaeth o fewn blwyddyn<br>Y gyllideb yn gallu gorwario oherwydd bod y cyllido yn hollol ddibynol ar adolygiadau a cheisiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Model 2** | Dyrannu cyllid ar sail angen ac oriau tybiannol<br>Angen isel/Canolig/Cymhedrol/Uchel<br>5awr/10awr/15awr/20awr | Rhoi sefydlogrwydd i'r ddarpariaeth | Dim hyblygrwydd<br>Oriau tybiannol ddim yn cydfynd a'r angen<br>Model drud |
| **Model 3** | Dyrannu ar sail niferoedd:<br>Cadw 5% o'r gyllideb wrth gefn er mwyn delio gyda achosion dwys iawn yn symud ysgol ac ysgolion bychan yn delio gyda achosion cymleth yn cyrraedd heb rybydd.<br>95% o'r gyllideb yn cael i ddyrannu ar sail:<br>80% Nifer ADY<br>20% Nifer Disgyblion | Fformiwla syml<br>Pob cadw o fewn y gyllideb<br>Sefydlogrwydd ond a swm bach wrth gefn i ddelio gyda sefyllfa argyfwng | Data PLASC angen ei wirio yn ofalus, ac angen bod yn gyson ar draws pob ysgol<br>Efallai yn rhy syml, ac yn golygu bod ysgolion sydd a'r achosion mwyaf dwys o dan anfantais |
| **Model 4** | i) 100 % Nifer Disgyblion yr Ysgol<br>ii) 100% Nifer ADY yn yr Ysgol<br>(ar ol tynnu 5% wrth gefn) | Fformiwla syml<br>Pob cadw o fewn y gyllideb<br>Sefydlogrwydd ond a swm bach wrth gefn i ddelio gyda sefyllfa argyfwng | Data PLASC angen ei wirio yn ofalus, ac angen bod yn gyson ar draws pob ysgol<br>Efallai yn rhy syml, ac yn golygu bod ysgolion sydd a'r achosion mwyaf dwys o dan anfantais<br>Model 4i) yn rhoi anfantais i ysgolion sydd a chanran uwch o blant ar y gofrestr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Model 5** | Dyrannu cyllid ar sail angen ac oriau tybiannol, ond heb gynnwys plant gyda lefel isel o angen.<br>Angen isel/Canolig/Cymhedrol/Uchel<br>0 awr/10awr/15awr/20awr | Rhoi sefydlogrwydd i'r ddarpariaeth | Dim hyblygrwydd<br>Model drud |
| **Model 6** | i) Dyrannu cyllid ar sail angen ac angen yn ol ffactor tybiannol,<br>Isel/Canolig/Cymhedrol/Uchel<br>1 : 2 : 3 : 4<br>ii) Dyrannu cyllid ar sail angen ac angen yn ol ffactor tybiannol, ond heb gynnwys plant gyda lefel isel o angen.<br>Isel/Canolig/Cymhedrol/Uchel<br>0 : 2 : 3 : 4 | Posib cadw o fewn y gyllideb<br>Sefydlogrwydd | Cymedroli pa blant sydd yn dangos pa lefel angen – dull adnabod angen ei ddatblygu ac, o bosib yn drwm yn weinyddol |
| **Model 7**<br>**(Angen modelu)** | Defnyddio sgor angen PLASC unigolion ar gyfer cyfrifo nifer pwyntiau PLASC o fewn pob ysgol. Pwyslais at y categoriau mwyaf pwysig e.e:<br>Curriculum and Teaching (CT) - 40%<br>Grouping and Support (GS) - 40%<br>Specialist Resources (SR) - 20%<br>Additional Agencies (AA) - 0% | Posib cadw o fewn y gyllideb<br>Dyraniad ar sail angen sydd wedi ei gymedroli<br>Sefydlogrwydd | Data PLASC angen ei wirio yn ofalus, ac angen bod yn gyson ar draws pob ysgol |

Tud. 31

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | 28 Mehefin 2021 |
| **TEITL YR EITEM** | Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt |
| **SWYDDOG PERTHNASOL** | Debbie Anne Williams Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| **AELOD CABINET** | Cemlyn Rees Williams |

**1. CEFNDIR**

1.1 Nod y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog.

1.2 Agorwyd y Ganolfan Iaith gynradd gyntaf yng Nghaernarfon ym mis Medi 1984, ac erbyn hyn, ceir tair Canolfan Iaith arall yn Nolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth. Yna, sefydlwyd Canolfan Iaith Uwchradd ym Mhorthmadog yn 2004.

1.3 Caiff y Canolfannau Iaith presennol eu cyllido gan y Grant Gwella Addysg (GGA), gyda'r Adran Addysg yn cyfrannu arian cyfatebol i'r grant hwnnw, ynghyd â chyfrannu at gostau cludiant y gwasanaeth.

1.4 Yn sgil polisi'r Cyngor o beidio cyfarch cynnydd mewn chwyddiant unrhyw swyddi a gyllidir drwy grant, ynghyd â chynnydd mewn costau, ddwy flynedd yn ôl, roedd yr Adran Addysg yn wynebu gorfod ail-strwythuro'r gwasanaeth i gwrdd â'r toriad yn y gyllideb.

1.5 Ar 2 Ebrill 2019, cyflwynwyd adroddiad ar ail-strwythuro'r Canolfannau Iaith gerbron y Cabinet, ble penderfynodd y Cabinet i gymeradwyo cyllid pontio er mwyn galluogi'r Adran i weithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd mewn un Canolfan Iaith gan fonitro'n ofalus er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

**2. GWELEDIGAETH NEWYDD AR GYFER ADDYSG DROCHI**

2.1 Mae addysg drochi yn greiddiol i bolisi iaith addysg Gwynedd a dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran Addysg wedi bod yn gweithio ar lunio gweledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt, gan adeiladu ar gryfderau a llwyddiannau'r Canolfannau Iaith sydd wedi bod yn cefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg ers 1984.

2.2 Gellir crynhoi'r prif achos dros newid a'r angen am weledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi Gwynedd i'r meysydd canlynol, ac ymhelaethir arnynt ymhellach isod:

- Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog
- Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cyfle i greu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf
- Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19
- Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot a weithredwyd ar gais y Cabinet.

2.3 **Rhoi anghenion y dysgwr yn ganolog**

- Yr angen i'r gyfundrefn hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg tra ar yr un pryd gadw cysylltiad gyda'u hysgol leol a'u cyfoedion.
- Yr angen i'r gyfundrefn allu cynorthwyo rhieni a gofalwyr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.

2.4 **Cyfoesi a moderneiddio'r ddarpariaeth**

- Yr angen i'r gyfundrefn ymateb i anghenion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
- Yr angen i fuddsoddi yn yr is-adeiledd ar gyfer y gyfundrefn gan gynnwys adnoddau digidol.

2.5 **Gweithio mewn partneriaeth**

- Yr angen i'r Adran Addysg ac ysgolion fod yn gweithio mewn partneriaeth gan gyd-berchnogi'r gyfundrefn addysg drochi.
- Yr angen i'r gyfundrefn addysg drochi allu rhoi arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i ysgolion i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.

2.6 **Cyfle i greu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf**

- Cyfle i fuddsoddi £1.1miliwn o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn y gyfundrefn addysg drochi gan wella'r amgylchedd dysgu a'r is-adeiledd.

2.7 **Cyfleoedd newydd yn deillio o COVID-19**

- Darpariaeth addysg gyfunol h.y. bu i'r Canolfannau Iaith ddarparu addysg gyfunol yn sgil y cyfnodau clo niferus, sef dysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd á gwaith ar Google Classrooms. Bu i hyn gael ei gydnabod fel arfer rhagorol gan Estyn.
- Yr ysgolion yn galw am arbenigedd addysg drochi ac adnoddau i gefnogi'r Gymraeg i gael ei ledaenu ar draws y gyfundrefn.

2.8 **Gwersi a ddysgwyd yn sgil y Cynllun Peilot**

- Bu i'r peilot amlygu'r angen i ystyried lles y dysgwyr, a chadw cysylltiad gyda'u cyfoedion; nifer yn ei chael hi'n anodd i ymdoddi'n ôl i'w hysgol leol ar ôl cyfnod mewn Canolfan.
- Yr angen i gryfhau'r berthynas gydag ysgolion i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i ddatblygiad iaith.

2.9 Yn seiliedig ar yr achos dros newid felly, ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw eu bod yn cael:

*"Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o'r radd flaenaf sy'n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau yn Y Gymraeg i'w galluogi i symud ymlaen.*

*Darparu trosglwyddiad effeithiol o'r addysg drochi i'r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn Y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd ac yn gyfrwng i'w galluogi i lwyddo a ffynnu."*

2.10 Ein nod yw cael cyfundrefn addysg drochi sydd yn rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Hoffem weld cyfundrefn sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes

o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.

2.11 Ceir copi cyflawn o'r weledigaeth newydd yn Atodiad 1.

## 3 YMGYSYLLTU ANFFURFIOL

3.1 Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu anffurfiol ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt rhwng 28 Mai 2021 a 28 Mehefin 2021.

3.2 Yn ystod y cyfnod ymgysylltu anffurfiol hwn, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu anffurfiol gyda:

- Staff Canolfannau Iaith Gwynedd
- Cynrychiolwyr Undebau yr Athrawon a'r Cymhorthyddion
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd
- Fforwm Cyllideb Ysgolion
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Iaith
- Dysgwyr

3.3 Isod cyflwynir grynodeb o'r sylwadau sydd fwyaf perthnasol i gylch gorchwyl y Fforwm Cyllideb Ysgolion, sef sylwadau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ynghyd â sylwadau penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd.

**SYLWADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

3.4 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt ar 10 Mehefin 2021.

3.5 Derbyniwyd yr adroddiad yn cyflwyno'r weledigaeth newydd gan aelodau'r Pwyllgor Craffu ynghyd â chais i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau'r pwyllgor yn ystod y drafodaeth, sef:

- Cydnabyddiaeth i lwyddiant y Canolfannau Iaith dros y blynyddoedd i sicrhau bod dysgwyr yn caffael y Gymraeg.
- Cytunwyd gyda'r bwriad i gryfhau'r atebolrwydd fel rhan o'r weledigaeth newydd.
- Cefnogwyd y bwriad i arfogi gweithlu'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr i wneud cynnydd pellach i feithrin hyder a chaffael y Gymraeg.
- Gofynnwyd i'r Adran Addysg gyflwyno rhagor o fanylder am y gyfundrefn addysg drochi pan fydd ar gael.
- Cafwyd amrywiaeth barn ar ffynhonnell gyllido'r gyfundrefn addysg drochi, gyda rhai aelodau yn gefnogol i'r bwriad y byddai ysgolion yn cyfrannu'n ariannol gan gynyddu atebolrwydd a chyd-berchnogaeth o'r gyfundrefn rhwng yr Adran Addysg a'r ysgolion, ond mynegwyd hefyd ddymuniad i'r Cyngor yn gorfforaethol ariannu'r bwlch cyllidol yn sgil y ffaith fod y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Ar ddiwedd y drafodaeth cafwyd pleidlais unfrydol o blaid y weledigaeth newydd gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, gyda chais i gyflwyno rhagor o fanylder am y gyfundrefn addysg drochi pan fydd ar gael.

**SYLWADAU PENAETHIAID**

3.6 Rhoddwyd cyflwyniad ar y weledigaeth newydd gerbron penaethiaid uwchradd Gwynedd ar 16 Mehefin 2021, a gerbron penaethiaid cynradd ar 17 Mehefin 2021. Mewn ymateb i'r weledigaeth newydd, bu i'r penaethiaid gyflwyno'r sylwadau canlynol:

- Cydnabuwyd yr her o daro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau trochi dwys er mwyn galluogi'r dysgwyr i gaffael y Gymraeg cyn gynted â phosibl, ynghyd â galluogi newydd-ddyfodiaid i setlo a pharhau yn eu hysgol newydd a chreu cyfoedion.
- Nodwyd bod cyfle i Gydlynwyr Iaith a Phenaethiaid Adrannau Cymraeg yr ysgolion uwchradd gyfrannu eu harbenigedd wrth ddatblygu'r manylder ar gyfer gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt.
- Croesawyd y weledigaeth a'r buddsoddiad gan y penaethiaid cynradd, ac yn arbennig y bwriad o sefydlu safleoedd addysg drochi newydd yn Nhywyn a Bangor.
- Cefnogwyd y bwriad i gyd-ariannu'r gyfundrefn newydd, gan bwysleisio i hynny beidio digwydd ar draul adnoddau yn yr ysgolion.

**4. CYLLIDO'R WELEDIGAETH TUAG AT 2032 A THU HWNT**

**Arian Cyfalaf**

4.1 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, y pwrpas, y nod a'r amcanion, ein bwriad yw buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd, er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif. Mae'r grant cyfalaf hwn yn grant 100% gan Lywodraeth Cymru, ac felly nid yw'n gofyn am unrhyw gyfraniad ariannol cyfalaf ychwanegol gan y Cyngor.

4.2 Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r cyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd, sydd eto wedi ei leoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.

4.3 Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llangybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

4.4 Yn sgil y buddsoddiad, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.

**Cyllideb Refeniw**

4.5 Bwriedir i'r Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt gael ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- Grant GGA
- Ysgolion (canolog)
- Adran Addysg

4.6 **Grant GGA**

Dyma'r grant craidd ar gyfer cyllido'r Gyfundrefn Addysg Drochi, fodd bynnag, fel y gwyddom, yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn costau, nid yw'r grant hwn ar ei ben ei hun yn ddigonol ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth yn llawn.

4.7 **Ysgolion**

Ystyrir y gyfundrefn addysg drochi yn wasanaeth arbenigol a chwbl hanfodol i weithrediad polisi iaith addysg Gwynedd. O ganlyniad, bwriedir gofyn am gyfraniad ariannol bychan gan yr ysgolion fydd yn fodd o sicrhau cyd-berchnogaeth a chyfundrefn addysg drochi addas i bwrpas tuag at 2032 a thu hwnt.

4.8 **Adran Addysg**

Mae'r Adran Addysg eisoes yn cyfrannu tuag at gostau'r gwasanaeth, a bydd y cyfraniad hwn yn parhau, drwy:

- Arian cyfatebol i'r grant GGA
- Gyfrannu at gostau cludiant i'r ddarpariaeth drochi.

4.9 Petai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r weledigaeth newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt, yna bwriedir ymgynghori gyda Chyrff Llywodraethol ysgolion Gwynedd yn nhymor yr Hydref 2021 ar sefydlu'r egwyddor y bydd ysgolion yn gwneud cyfraniad ariannol blynyddol i gyllido'r gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd o Ebrill 2022 ymlaen.




# Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd

## tuag at 2032 a thu hwnt

# Rhagair

## Cemlyn Rees Williams

### Aelod Cabinet Addysg



*"Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.*

*Hoffwn weld cyfundrefn addysg drochi sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf, gan gefnogi newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus, ynghyd â sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd ac yn gyfrwng i'w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu."*

## CYMRAEG 2050

*"Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd."*

*Nod Llywodraeth Cymru yw...* ***creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.***

***Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050***

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwrpas y gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt yw:

- **Hyrwyddo cyflawniad a lles newydd-ddyfodiaid Gwynedd i gaffael y Gymraeg.**
- **Cefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol i gynyddu eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol.**
- **Arfogi a chefnogi gweithlu ysgolion Gwynedd i weithredu egwyddorion addysg drochi yn y Cyfnod Sylfaen.**
- **Darparu arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i weithlu ysgolion Gwynedd i'w galluogi i gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach o safbwynt eu hyder/sgiliau yn y Gymraeg.**
- **Cynorthwyo rhieni a gofalwr i ddeall gwerth addysg Gymraeg a'u cynorthwyo i gefnogi eu plant.**



**Y weledigaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn newydd-ddyfodiaid yw:**

Mynediad at gyfundrefn addysg drochi o'r radd flaenaf sy'n darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i symud ymlaen.

Darparu trosglwyddiad effeithiol o'r addysg drochi i'r ysgol leol gan sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd ac yn gyfrwng i'w galluogi i lwyddo a ffynnu.



# Y Weledigaeth

Ein nod yw cael cyfundrefn addysg drochi sydd yn rhoi anghenion y dysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.

Hoffem weld cyfundrefn sydd yn hyblyg ac yn darparu addysg drochi gyfoes o'r radd flaenaf i'r dysgwyr, gan feithrin eu sgiliau yn y Gymraeg i'w galluogi i lwyddo a ffynnu yn ein hysgolion gan ddod yn siaradwyr hyfedr ddwyieithog.



# Ein Nod


Lles
Y LLWYFAN
Ardal Blant
CHWARAEON
Y Sgubor
ALLANFA
Toiledau

# 5 Amcan



**Dyma'r amcanion fydd yn sail i'r gyfundrefn addysg drochi tuag at 2032 a thu hwnt:**

## 1. ADDYSGU A DYSGU

1. Cyfundrefn addysg drochi arloesol, sydd yn seiliedig ar arbenigedd ac yn cyfoethogi'r profiad addysgu a dysgu yn ogystal ag annog rhagoriaeth yn y maes.
2. Y deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr yn gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg gan ddatblygu diddordeb gydol oes yn ieithoedd Cymru ac ieithoedd y byd, a thrwy hynny eu gwneud yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu yng nghyfundrefn addysg ddwyieithog Gwynedd a thrwy gydol eu hoes.
3. Cyfundrefn addysg drochi gyfoes sydd yn dathlu hunaniaeth, ymwybyddiaeth o iaith a threftadaeth, gan ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

## 2. AMGYLCHEDD DYSGU

1. Amgylchedd Dysgu o'r radd flaenaf, gyda chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.
2. Amgylchedd Dysgu gynhwysol sydd yn ymateb i anghenion amrywiol gan gynnwys dysgwyr bregus a dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
3. Amgylchedd Dysgu sydd yn manteisio ar y dechnoleg fwyaf cyfoes gan roi profiadau a sgiliau amrywiol i ddysgwyr wrth gaffael iaith.

## 3. CWRICWLWM

1. Cyfundrefn addysg drochi gadarn a gwydn sy'n gallu addasu i gyfarch unrhyw newidiadau perthnasol ym myd addysg.
2. Darpariaeth addysg drochi gyfoes sydd yn addas i bwrpas ar gyfer 2032 a thu hwnt sy'n adlewyrchu gofynion y dysgwyr a'r cwricwlwm.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i gefnogi a darparu'r cwricwlwm.



## 4. CEFNOGAETH I DDYSGWYR

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n cynnig darpariaeth fugeiliol ragorol gan roi anghenion y dysgwr yn ganolog.
2. Cyfundrefn addysg drochi sy'n sicrhau mynediad at gymorth a chefnogaeth o ansawdd uchel sydd wedi ei gynllunio o amgylch y dysgwr.
3. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgolion i sicrhau cymorth a chefnogaeth priodol i'r dysgwr, rhieni a gwarcheidwaid yng nghyd-destun y Gymraeg.

## 5. ADNODDAU CYLLIDOL

1. Cyfundrefn addysg drochi sy'n gwneud defnydd effeithlon o adnoddau cyllidol, gan sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddysgwyr.
2. Cyfundrefn addysg drochi hyfyw tuag at 2032 a thu hwnt wedi ei seilio ar grwpiau dysgu gwydn, cyllideb a chynllun busnes cadarn.
3. Cyfundrefn sydd wedi manteisio ar y cyfle i ddenu buddsoddiad o £1.1m ar gyfer gwella'r ddarpariaeth addysg drochi trwy Grant Cyfalaf Addysg Gymraeg.

# Cyflawni'r Nod, Y Weledigaeth a'r Amcanion

Byddwn yn buddsoddi £1.1m o grant cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru yn ein cyfundrefn addysg drochi yng Ngwynedd er mwyn sicrhau amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf, a chyfleusterau cwbl fodern ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yr 21ain ganrif.


Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn gyfrwng i sefydlu 2 safle addysg drochi cwbl newydd yng Ngwynedd wedi eu lleoli mewn ardaloedd strategol o'r sir ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, sef Tywyn a Bangor. Bwriedir gwella'r cyfleusterau hefyd yn safle addysg drochi Eifionydd sydd eto wedi ei leoli'n strategol reit ynghanol y sir. Bydd y 3 safle addysg drochi yma yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar y cyd gan bontio blynyddoedd 5-9.


Bwriedir hefyd adleoli Canolfan Iaith Dolgellau i safle mwy er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth i ragor o blant, a bydd safle Dolgellau ynghyd â Llangybi a Maesincla yn darparu addysg drochi i flynyddoedd 2-4 yr ysgolion cynradd.

Yn sgil y buddsoddiad cyfalaf, bydd 6 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran cynradd a 3 safle yn cynnig darpariaeth i ddysgwyr oedran uwchradd, gydag hyblygrwydd rhwng y safleoedd yn unol â'r galw.

O ganlyniad, yn y drefn newydd bydd modd cynnig y ddarpariaeth i fwy o ddysgwyr.

# Yn sgil yr uchod, bydd cyfundrefn addysg drochi newydd Gwynedd yn cynnwys 6 safle fel a ganlyn:





# Dalgylchoedd a wasanaethir

Mae'r tabl isod yn nodi pa ddalgylchoedd y byddai safleoedd Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd yn eu gwasanaethu'n gyffredinol. Bydd hyblygrwydd rhwng yr holl safleoedd o ran derbyn dysgwyr o wahanol ddalgylchoedd yn ddibynnol ar niferoedd, ac yn arbennig y dalgylchoedd hynny sydd yn ffinio gyda sawl safle e.e. Ardudwy a Dyffryn Nantlle.

| Dalgylchoedd | Bangor BI 5-9 | Eifionydd BI 5-9 | Tywyn BI 5-9 | Maesincla BI 2-4 | Llangybi BI 2-4 | Dolgellau BI 2-4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyffryn Ogwen | | | | | | |
| Bangor | | | | | | |
| Brynrefail | | | | | | |
| Syr Hugh Owen | | | | | | |
| Dyffryn Nantlle | | | | | | |
| Botwnnog | | | | | | |
| Glan y Môr | | | | | | |
| Eifionydd | | | | | | |
| Y Moelwyn | | | | | | |
| Ardudwy | | | | | | |
| Bro Idris | | | | | | |
| Y Berwyn | | | | | | |
| Tywyn | | | | | | |

# Y Ddarpariaeth


Bydd y ddarpariaeth addysg drochi cynradd ac uwchradd yn ddarpariaeth 4 niwrnod yr wythnos, am gyfnod o 8-10 wythnos. Bydd hyn yn fodd o sicrhau bod modd cynnal y ddarpariaeth drochi'n gyflawn ar gyfer y 3 tymor ysgol.

Bydd dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod pob wythnos, a bydd hynny'n fodd i'r dysgwyr barhau â chyswllt efo'u hysgol leol, gan sicrhau parhad i'w haddysg drochi yn y Gymraeg yno, ynghyd â chael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Am 1 diwrnod yr wythnos, pan fo'r dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ysgolion, yn gallu cynorthwyo yn y safleoedd addysg drochi eraill, yn darparu cefnogaeth o bell i'r dysgwyr, rhoi arweiniad i'r ysgolion i gefnogi'r dysgwyr, yn ogystal â llunio a darparu adnoddau mewn ymateb i angen ym maes addysg Gymraeg ac addysg drochi yn fwy cyffredinol.

Ar gyfer y cyfnod fydd yn weddill o bob tymor ble gwelwn y dysgwyr wedi dychwelyd i'w hysgolion lleol, bydd staff y gyfundrefn addysg drochi yn gweithredu rhaglen lawn o ddysgu cyfunol, sef addysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, sesiynau dysgu byw drwy Teams, ynghyd â dysgu o bell drwy Google Classrooms i sicrhau cynhaliaeth ychwanegol i'r dysgwyr i'w cynorthwyo i wneud cynnydd pellach i gaffael y Gymraeg yn yr ysgol.  Bydd modd darparu addysg gyfunol ar unrhyw adeg i ddysgwyr sydd yn parhau i fod angen cymorth ychwanegol wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgol leol ar ôl treulio 8-10 wythnos yn y ddarpariaeth addysg drochi.

## Modelu'r ddarpariaeth




Dysgwyr yn mynychu'r ddarpariaeth Addysg Drochi gyfagos am 4 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos

Dysgwyr yn mynychu eu hysgol leol am 1 diwrnod yr wythnos am gyfnod o 8-10 wythnos cyn dychwelyd i'w hysgol leol yn llawn amser.

## Strwythur Staffio

Pennaeth y Gwasanaeth

Dirprwy

Athro

Cymhorthydd



# Ariannu

Caiff y Gyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt ei gyllido o 3 ffynhonnell gwahanol, sef:

- **Grant GGA**
  Dyma'r grant craidd ar gyfer cyllido'r Gyfundrefn Addysg Drochi, fodd bynnag, yn sgil chwyddiant a chynnydd mewn costau, nid yw'r grant hwn ar ei ben ei hun yn ddigonol ar gyfer cyllido'r ddarpariaeth yn llawn.

- **Ysgolion**
  Ystyrir y gyfundrefn addysg drochi yn wasanaeth arbenigol a chwbl hanfodol i weithrediad polisi iaith addysg Gwynedd. O ganlyniad, bwriedir gofyn am gyfraniad ariannol gan yr ysgolion fydd yn fodd o sicrhau cyfundrefn addysg drochi addas i bwrpas tuag at 2032 a thu hwnt.

- **Adran Addysg**
  Mae'r Adran Addysg eisoes yn cyfrannu tuag at gostau'r gwasanaeth, a bydd y cyfraniad hwn yn parhau, drwy:
  - Arian cyfatebol i'r grant GGA
  - Gyfrannu at gostau cludiant i'r ddarpariaeth drochi.



## Mesur Llwyddiant:

Byddwn yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi yn benodol drwy gyfrwng y mesurydd canlynol:

Nifer / % newydd-ddyfodiaid sydd yn cyrraedd Lefel 2 (llafaredd) ar ddiwedd eu cyfnod trochi dwys.

**Byddwn hefyd yn mesur llwyddiant y gyfundrefn addysg drochi o ystyried cyfraniad y gyfundrefn i ddeilliannau canlynol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod:**

- Mwy o blant dosbarth derbyn/ 5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 2)
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall. (CSGA: Deilliant 3)
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. (CSGA: Deilliant 4)
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. (CSGA: Deilliant 5)
- Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (CSGA: Deilliant 6)



# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA):

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn ddogfen statudol o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*.

Mae'r CSGA yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun addysg Gymraeg. Yng Ngwynedd, caiff y CSGA ei ddehongli yng nghyd-destun Polisi Iaith Addysg y Sir. Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Wrth ddwyieithrwydd oed berthnasol golygir bod disgyblion yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pwrpas y Gyfundrefn Addysg Drochi yw hyrwyddo cyflawniad dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg drwy ddarpariaeth trochi dwys, ynghyd â darparu cefnogaeth i ddysgwyr sydd angen hwb ychwanegol o safbwynt eu hyder neu eu sgiliau yn y Gymraeg yn yr ysgol. Mae darpariaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol, ynghyd â chyfrannu at ffyniant ein dysgwyr yn y gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd.



*"Rwy'n falch o gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032**. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu fy ngweledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.*

*Mae Adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.*

*Mae hi'n gyfnod hynod o gyffrous i'r iaith Gymraeg a hoffwn sicrhau darpariaeth, profiadau a chefnogaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg sydd yn ymateb i anghenion y dysgwyr a'u teuluoedd, ac yn gyfrwng i'w harfogi fel dysgwyr annibynnol a hyderus ddwyieithog i'w galluogi i lwyddo a ffynnu. Yn yr un modd, hoffwn sicrhau bod holl weithlu ein hysgolion yn hyderus ddwyieithog, gan dderbyn pob cefnogaeth i feithrin eu hyder a'u sgiliau yn yr iaith Gymraeg, gan allu trosglwyddo'r sgiliau hynny'n effeithiol i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar lawr dosbarth."*

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams,

Aelod Cabinet Addysg.